

Gwasanaethau Adwerthu Gwledig – Astudiaeth

Canolfan Cydweithredol Cymru

Ionawr 2002

Cynnwys

Tudalen

1. Crynodeb Gweithredol
2. Cefndir
3. Dyfodol swyddfeydd post gwledig
4. Arolwg o Gyngorau Cymuned
5. Dyfodol unedau adwerthu eraill
 - Mapio Gwasanaethau Gwledig.
 - Partneriaeth â'r sector preifat.
 - Cynlluniau i gynyddu'r nifer sy'n croesi'r rhiniog
 - Gwahanu gwahanol swyddogaethau unedau adwerthu gwledig
6. Darparu Gwasanaethau Cefnogi
7. Effaith Trethi Busnes
8. Argymhellion cyffredinol / crynodeb o'r argymhellion
9. Astudiaethau Achos
10. Llyfryddiaeth

1. Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Yng Nghymru (a Dwyrain Lloegr) y bu cyfradd y gostyngiad yn nifer swyddfeydd post gwledig ar ei uchaf yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2001, ond er hyn, yma o hyd y mae'r nifer fwyaf o swyddfeydd post am bob 10,000 o gartrefi yn y Deyrnas Gyfunol.
- 1.2 O holl wledydd Prydain, yng Nghymru y bu'r gostyngiad mwyaf yn nifer swyddfeydd post yn ystod y chwe mlynedd diwethaf.
- 1.3 Ymddengys y bydd y pwysau sydd ar swyddfeydd post gwledig yng Nghymru yn parhau gyda 21.3% yn cael llai na 100 o gwsmeriaid bob wythnos.
- 1.4 Powys a Cheredigion sydd â'r ganran isaf (70% - 80%) o bobl yn byw o fewn 2km i swyddfa bost a Phowys sydd â'r ganran uchaf (3% - 5%) yn byw mwy na 4km o swyddfa bost.
- 1.5 Rhwydwaith y swyddfeydd post yw un o'r rhai mwyaf cynhwysfawr yn y DG ac mae'n rhoi cyfle i ddatblygu cynlluniau newydd i gynyddu'r nifer sy'n croesi'r rhiniog, a fydd yn arwain at fanteision cymunedol newydd ac a fydd wrth wraidd hyfywedd masnachol swyddfeydd post gwledig.
- 1.6 Ar hyn o bryd mae Swyddfa'r Post ynghlwm wrth reolau Llywodraeth y DG sy'n pennu'r modd y gall ddylanwadu ar y rhwydwaith gwledig. Dyma rywbeth y gellid ei ystyried ymhellach yng Nghymru yng nghydestun cyffredinol cynnal gwasanaethau adwerthu gwledig.
- 1.7 Mae Cynghorau Cymuned mewn sefyllfa dda i fedru bod â rhan bwysig yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth i gynorthwyo unedau adwerthu gwledig. Mae angen rhoi sylw penodol, fodd bynnag, i'r math o rôl y dylai honno fod a pha lefel o adnoddau a grym y byddai angen eu rhoi i Gynghorau Cymuned i'w galluogi i ymgymryd â rôl o'r fath.
- 1.8 Mae cynnal gwasanaethau adwerthu gwledig yn y dyfodol wedi'i gyplysu'n annatod â'r angen am gyngor a chefnogaeth arbenigol a manwl yn ymwneud ag adwerthu nad yw'n bod i'r lefel angenrheidiol yn y sector cyhoeddus. Y mae'n dyngedfennol, felly, bod y sectorau preifat a chyhoeddus yn cydweithio mwy i ddatblygu a gweithredu strategaethau cefnogi yn y dyfodol.
- 1.9 Mae'n amlwg fod gan unedau adwerthu, eu perchnogion a'u gweithwyr ran allweddol mewn cymunedau gwledig ac ystyrir yn aml eu bod yn ganolog i'r hunaniaeth wledig. Fodd bynnag, mae angen cydnabod y rôl wahanol y dylai'r sector cyhoeddus fod yn ymgymryd â hi yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cymunedol. Dylid cynnig cefnogaeth benodol hefyd i unigolion sydd ynghlwm wrth weithgarwch adwerthu sydd â rhan neu'r potensial i fod â mwy o ran yn y cynlluniau i adfywio cymunedau.

- 1.10 Mae prinder gwybodaeth ar gael yng Nghymru sy'n mapio'n gynhwysfawr y modd y mae gwasanaethau gwledig wedi'u gwasgaru ac sy'n dangos yn fanwl i ba raddau y mae'r gwasanaethau hyn ar gael mewn gwahanol ardaloedd.
- 1.11 Mae clystyru gwasanaethau yn ffactor allweddol yn nyfodol gwasanaethau adwerthu gwledig, naill ai drwy gynnig gwahanol wasanaethau o dan yr un to neu drwy gysylltu gwahanol unedau er mwyn sicrhau darbodion maint. Mae angen cydnabod, fodd bynnag, fod cynlluniau llwyddiannus i gynyddu'r nifer sy'n croesi'r rhiniog mewn un ardal yn effeithio ar ardaloedd eraill.
- 1.12 Mae'r gwasanaethau cefnogi adwerthu yng Nghymru yn anghyson ar hyn o bryd ac mae lefel y gefnogaeth y mae modd iddynt ei chynnig yn gyfyngedig. Fodd bynnag, nid ystyrir ei bod yn gost effeithiol nac yn effeithlon rhoi adnoddau i ddatblygu gwasanaeth cefnogi adwerthu cwbl gynhwysfawr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae cryn dipyn o'r arbenigedd angenrheidiol yn y sector preifat, beth bynnag, ac fe'i hystyrir yn bwysig er mwyn sicrhau mantais fasnachol. Ystyrir, fodd bynnag, mai doeth fyddai sicrhau un man cyswllt unigol ar ffurf asiantaeth neu gorff sydd â'r gallu i weithio'n strategol ar hyd a lled cefn gwlad Cymru.
- 1.13 Mae'r modd y gweithredir gostyngiad mewn trethi busnes ar hyn o bryd yn peri cryn ddryswch. Dylai'r sefyllfa wella pan weithredir canllawiau newydd fis Ebrill 2002. Mae'n bosibl iawn y byddai modd cyfiawnhau ystyried rhoi mwy o ostyngiad yng nghyd-destun cynlluniau sy'n rhan o strategaeth gytunedig i ddatblygu gwasanaethau adwerthu gwledig .

2. Cefndir

- 2.1 Yn *'Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru'* – datganiad ar y cyd rhwng Arweinwyr y Blaid Lafur a'r Blaid Ryddfrydol yn y Cynulliad Cenedlaethol, roedd ymrwymiad i sefydlu uned arbenigol yng Nghanolfan Cydweithredol Cymru i fynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu swyddfeydd post gwledig ac unedau adwerthu eraill.

Fel cam cyntaf tuag at sefydlu uned arbenigol o'r fath, cytunodd Is-adran Polisi Gwledig y Cynulliad a Chanolfan Cydweithredol Cymru y byddai'n briodol darganfod beth yw sefyllfa bresennol y gwasanaethau adwerthu yng nghefn gwlad Cymru, beth yw natur y gefnogaeth y maent yn ei chael ar hyn o bryd a beth, o bosibl, fydd ei angen yn y dyfodol.

Cytunwyd wedyn y byddai'r Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru yn comisiynu astudiaeth ar y cyd, ac mai Canolfan Cydweithredol Cymru fyddai'n ymgymryd â'r astudiaeth honno.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi casgliadau'r gwaith a wnaed gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ac yn cynnig cyfres o argymhellion.

2.2 Nod

Dyma nod cyffredinol yr astudiaeth:

Archwilio pa mor ymarferol fyddai mynd i'r afael â phroblemau swyddfeydd post gwledig ac unedau adwerthu gwledig eraill, gan gynnwys siopau lleol, modurdai a thafarndai.

2.3 Amcan

Mae amcanion mwy penodol yr astudiaeth dichonolrwydd wedi'u rhestru isod:

- nodi anghenion cymunedau gwledig mewn perthynas ag unedau adwerthu bychain;
- nodi'r ffactorau sy'n allweddol i gynnaladwyedd swyddfeydd post gwledig llwyddiannus ac unedau adwerthu eraill, gan nodi enghreifftiau o arfer dda yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill;
- darganfod beth yw'r sefyllfa bresennol o ran perchnogaeth gydweithredol a chymunedol yng nghefn gwlad Cymru;

- nodi'r modd y gellid cadw a gwella'r gwasanaethau gwledig megis swyddfeydd post a siopau, modurdai a thafarndai, yn benodol yng nghyd-destun busnesau sy'n hyfyw'n ariannol;
- nodi strwythurau a mecanweithiau sy'n bod eisoes i gynorthwyo unedau adwerthu gwledig;
- nodi cysylltiadau posibl â chyrff eraill sy'n gallu rhoi gwasanaethau cefnogi neu wasanaethau danfon ac sy'n gallu sicrhau bod y gwasanaethau ar gael mewn ardaloedd gwledig;
- nodi amrywiaeth o ddewisiadau ar gyfer sefydlu uned arbenigol sy'n canolbwyntio ar gynorthwyo unedau adwerthu gwledig bychain, yng nghyd-destun y ddarpariaeth bresennol yn benodol.

2.4 *Ein dulliau:*

- **Deunydd ysgrifenedig** – mae amrywiaeth eang o ddeunyddiau ar gael yn ymwneud ag unedau adwerthu gwledig. Mae'r rhan helaethaf o'r rhain yn ymdrin â'r pwnc o safbwynt Lloegr. Cyfeirir at Gymru dim ond fel rhan fechan o'r astudiaeth neu'r cynllun.
- **Cyfweliadau uniongyrchol** – â chynrychiolwyr o'r sector preifat a chyhoeddus
- **Arolwg o 600 o gynghorau cymuned gwledig** – y nod oedd nodi faint o Gynghorau Cymuned a oedd wedi gweld unedau adwerthu'n cau yn eu cymunedau, a'u hymateb i hynny.
- **Astudiaethau achos** – lluniwyd astudiaethau achos yn nodi ymatebion amrywiol i'r her o ddiogelu unedau adwerthu gwledig;
- **Edrych ar enghreifftiau o gynlluniau cefnogi adwerthu** mewn ardaloedd gwledig y tu allan i Gymru gan ystyried pa mor berthnasol yw profiad ardaloedd trefol;
- **Asesu effaith bosibl** mesurau penodol i ymyrryd.

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â siopau, tafarndai a swyddfeydd post. Nid yw'n mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gwerthu tanwydd cerbydau yng nghefn gwlad Cymru.

3. Dyfodol swyddfeydd post gwledig yng Nghymru

- 3.1 Y dirywiad yn nifer yr is-swyddfeydd post yng nghefn gwlad Cymru fu'n bennaf gyfrifol am ddod â dyfodol gwasanaethau adwerthu yng nghefn gwlad Cymru i'r amlwg.

Ddiwedd mis Medi 2001 roedd 1386 o swyddfeydd post yng Nghymru. O'r rhain, roedd 968 yn swyddfeydd post gwledig a 418 yn swyddfeydd post trefol. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 5 yn nifer y swyddfeydd post, pob un ohonynt yn wledig, rhwng Mehefin 2001 a Medi 2001. Yn ôl diffiniad Swyddfa'r Post mae swyddfa bost yn un wledig os yw'n gwasanaethu tref neu bentref sydd â phoblogaeth o lai na 10,000.

Yn ystod y flwyddyn hyd fis Mawrth 2001 bu cynnydd yn nifer y swyddfeydd post gwledig a gaewyd yng Nghymru a Dwyrain Lloegr gyda'r ddwy ardal yn colli 6% ohonynt o'i gymharu â chyfartaledd o 4.7%

- 3.2 Yn ei Adroddiad Blynyddol cyntaf ar gyflwr y Rhwydwaith, cyflwynodd Postcomm, corff rheoli'r gwasanaethau post, ystadegau gwerthfawr, a ategwyd gan adroddiad manwl a gynhyrchwyd gan Environmental Resources Management mewn cydweithrediad â MORI, ar gyflwr presennol y rhwydwaith gwledig yng Nghymru.

Tabl 1 Newidiadau rhanbarthol 2000/01 yng nghyswllt swyddfeydd post gwledig				
Rhanbarth	Swyddfeydd post gwledig diwedd Mawrth 2000	Swyddfeydd post gwledig diwedd Mawrth 2001	Newid Gostyngiad clir	Newid % y gostyngiad
D On Lloegr	1,268	1,220	48	4
D Ddn Lloegr	1,065	1,013	52	5
Llundain*	14	13	1	7
G Canolbarth Lloegr	618	587	31	5
Dn Lloegr	1,042	982	60	6
Dn Canolbarth Lloegr	866	824	42	5
G On Lloegr	576	548	28	5
Swydd Efrog	767	727	40	5
G Ddn Lloegr	340	336	4	1
Yr Alban	1,288	1231	57	4
Cymru	1,029	968	61	6
G Iwerddon	421	404	17	4
Cyfanswm DG	9,294	8,853	441	4.7
Fynhonnell: adroddiad Postcomm 2001 / Consignia				

* Nid oes digon o swyddfeydd post 'gwledig' yn Llundain i fedru cymharu'r ardal yn ystadegol ddibynadwy ag ardaloedd eraill y DG.

3.3 Mae dwy set o ystadegau cymharol o bwys y dylid eu hystyried wrth drafod dyfodol swyddfeydd post yng nghefn gwlad Cymru.

Yn gyntaf, rhaid ystyried amllder cymharol swyddfeydd post yng ngwahanol wledydd y DG, fel y nodir yn Nhabl 2 isod. Lloegr, gyda phoblogaeth drefol sylweddol, sydd â'r nifer fwyaf o swyddfeydd post am bob 10 km sgwâr. Y ffigwr amlycaf, fodd bynnag, yw hwnnw ar gyfer Cymru, yn enwedig o'i gymharu â'r Alban sy'n debycach i Gymru nag i Loegr o ran y rhaniad rhwng ardaloedd gwledig a threfol. Mae gan Gymru bron deirgwaith mwy o swyddfeydd post na'r Alban am bob 10 km sgwâr.

Mae'n amlwg bod modd esbonio hyn i raddau drwy ystyried y gymhareb rhwng arwynebedd y tir a maint y boblogaeth yn yr Alban a Chymru. Pan edrychwch ar nifer y swyddfeydd post am bob 10,000 o gartrefi, fodd bynnag, (Tabl 3) mae'r ffigwr yn llawer uwch ar gyfer Cymru nag ar gyfer yr Alban ac, yn wir, ar gyfer unrhyw wlad arall yn y DG.

Tabl 2 Nifer y swyddfeydd post ym mhob gwlad, 2001			
Gwlad	Arwynebedd (km sgwâr)	Nifer y swyddfeydd post	Swyddfeydd post am bob 10 km sgwâr
Lloegr	130,760	13,911	1.06
Gogledd Iwerddon	14,160	611	0.43
Yr Alban	78,132	1,938	0.25
Cymru	20,768	1,386	0.67
Ffynhonnell: adroddiad Postcomm, 2001			

Tabl 3 Nifer y swyddfeydd post am bob 10,000 o gartrefi ym mhob gwlad, 2001			
Gwlad	Nifer y swyddfeydd post	Nifer y cartrefi	Swyddfeydd post am bob 10,000 o gartrefi
Lloegr	13,911	20,968,013	6.63
Gogledd Iwerddon	611	647,477	9.44
Yr Alban	1,938	2,231,580	8.64
Cymru	1386	1,263,606	10.96
Yng Nghymru, ar gyfartaledd, mae 1 swyddfa bost am bob 912 o gartrefi o'i gymharu ag 1 swyddfa bost am bob 1508 o gartrefi yn Lloegr			
Ffynhonnell: adroddiad Postcomm, 2001			

- 3.4 Gall amlder y swyddfeydd post yng Nghymru awgrymu'n wir y caewyd llai ohonynt yn y gorffennol yng Nghymru nag yng ngwledydd eraill y DG. Dengys Tabl 4 nad yw hyn yn wir. Mae canran y swyddfeydd post a gollodd Cymru yn ystod y chwe mlynedd diwethaf bron ddwywaith yn fwy na'r ganran a gollodd Lloegr a Gogledd Iwerddon a bron deirgwaith yn fwy nag a gollodd yr Alban.

Tabl 4 Amcangyfrif o'r newid yn nifer y swyddfeydd post yn y pedair gwlad , 1995-2001				
Sir	Nifer y swyddfeydd post		Newid 1995 – 2001	
	1995	2001	Nifer	%
Gogledd Iwerddon	663	611	-52	-7.8
Yr Alban	2,035	1,938	-97	-4.8
Lloegr	15,103	13,905	-1,198	-7.9
Cymru	1,614	1,398	-216	-13.4
Ffynhonnell: adroddiad ERM Postcomm , 2001				

Yng nghyswllt cyfanswm nifer y swyddfeydd post yng Nghymru, ystyrir bod 70% ohonynt yn rhai gwledig. Dyma'r gyfran uchaf o swyddfeydd post gwledig yn unrhyw un o ranbarthau'r DG.

Tabl 5 Cyfran o swyddfeydd post gwledig ym mhob rhanbarth ddiwedd mis Mawrth 2001	
Rhanbarth	% Gwledig
De Orllewin Lloegr	65
De Ddwyrain Lloegr	47
Llundain	1
Gorllewin Canolbarth Lloegr	40
Dwyrain Lloegr	59
Dwyrain Canolbarth Lloegr	60
Gogledd Orllewin Lloegr	30
Swydd Efrog	47
Gogledd Ddwyrain Lloegr	45
Yr Alban	64
Cymru	70
Gogledd Iwerddon	67
Cyfanswm yn y DG	50
Ffynhonnell: adroddiad Postcomm 2001 / Consignia	

3.5 O'r holl swyddfeydd post a gaewyd ar hyd a lled y DG yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2001, roedd 56% ohonynt yn gwasanaethu llai na 70 o gwsmeriaid yr wythnos ac roedd 34% yn gwasanaethu llai na 280. Mae Swyddfa'r Post yn amcangyfrif bod darpariaeth arall ar gael o fewn 2 filltir i 85% o gwsmeriaid gwledig y swyddfeydd post gwledig a gaewyd yn ystod 2000/2001. Darganfu ymchwil Postcomm, fodd bynnag, fod 20% o rieni sengl, yr henoed a'r rheini sydd ag incwm isel, sy'n byw mewn ardaloedd lle caewyd swyddfa bost yn ystod 1998/99, yn

dweud eu bod yn cael trafferth cyrraedd swyddfa bost wedi hynny.

Yng Nghymru mae'r ystadegau ar gyfer nifer y cwsmeriaid yr un mor llwm. Mae Tabl 6 isod yn dangos nifer y cwsmeriaid yn holl swyddfeydd post Cymru, er y gellir cymryd yn ganiataol bod pob swyddfa bost yn y categorïau hyn yn un o ardaloedd gwledig Cymru.

Cwsmeriaid	Nifer y swyddfeydd post	% o'r cyfanswm
0 – 10	28	2
0 – 20	75	5.4
0 – 50	159	11.4
0 – 100	298	21.3

Ffynhonnell: Cyngorwyr Trosglwyddo Gwledig

3.6 Nid oes fawr o amheuaeth bod yr ystadegau, fel y'u cyflwynwyd hwy gan Consignia, Postcomm ac arolwg ERM/MORI yn rhoi darlun llwm iawn o'r hyn sydd wedi digwydd i swyddfeydd post yng nghefn gwlad Cymru, o'r sefyllfa bresennol ac o'r duedd debygol yn y dyfodol. Mae'r ffigyrau ar gyfer nifer cwsmeriaid y swyddfeydd post ynghyd ag amllder y swyddfeydd post yng Nghymru ar hyn o bryd, yn awgrymu'n gryf y bydd y pwysau ar rwydwaith y swyddfeydd post yng nghefn gwlad Cymru yn parhau.

3.7 O edrych ar ddisbarthiad daearyddol swyddfeydd post ar hyd a lled cefn gwlad Cymru, y mae hefyd yn bosibl gweld pa ardaloedd yr effeithir fwyaf arnynt os bydd swyddfeydd post yn cau yn y dyfodol. Y rhain fydd yr ardaloedd sydd eisoes dan anfantais o safbwynt hwylustod gwasanaethau swyddfa bost.

Dyma'r pellteroedd presennol rhwng cartrefi a swyddfeydd post yn yr awdurdodau lleol hynny sy'n cynnwys ardaloedd gwledig yn bennaf:

- Mae 70% - 80% o gartrefi Powys a Cheredigion o fewn 2 km o swyddfa bost
 - mae 3% - 5% o gartrefi ym Mhowys dros 4 km o swyddfa bost
 - mae 1% - 3% o gartrefi yng Ngheredigion dros 4 km o swyddfa bost.
- Mae 80% - 85% o gartrefi yn Ynys Môn, Gwynedd, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin o fewn 2 km o swyddfa bost
 - Mae 1% - 3% o gartrefi yng Ngwynedd, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin dros 4 km o swyddfa bost
 - Mae 0.5% - 1% o gartrefi yn Ynys Môn dros 4 km o swyddfa bost.
- Mae 85% - 95% o gartrefi yn Sir Ddinbych o fewn 2 km o swyddfa bost
 - Mae 1% - 3% o gartrefi dros 4 km o swyddfa bost.
- 90% - 95% o gartrefi yng Nghonwy o fewn 2 km o swyddfa bost

1% - 3% o gartrefi dros 4 km o swyddfa bost.

- 3.8 Gwnaeth Postcomm hefyd nifer o argymhellion yn yr adroddiad gydag un yn arbennig o bwys sylweddol i rôl swyddfeydd post yng nghefn gwlad Cymru yn y dyfodol, sef:

‘Government departments, local authorities and the devolved administrations, when considering the best way to deliver community services, take into account the overall social benefits and value for money to be gained from the extensive Post Office Network.’

Dyma thema sy'n rhedeg drwy bob adroddiad ar wasanaethau adwerthu gwledig, a thema sy'n cael sylw ar sawl achlysur yn yr adroddiad hwn. Nid oes amheuaeth, ac mae'r hyn a glywir gan bobl yng nghefn gwlad ynghyd â'r wybodaeth a geir mewn arolygon yn ategu hyn, fod hunaniaeth cymunedau gwledig ynghlwm wrth eu siopau, eu tafarndai a'u swyddfeydd post. Nid yw'r hunaniaeth gymunedol hon, a fynegir yn nhermau presenoldeb siop, tafarn neu swyddfa bost, yn cael ei hadlewyrchu o reidrwydd, ysywaeth, yng ngheithgarwch masnachol yr unedau adwerthu hynny.

Y canlyniad amlwg a synhwyrol y daw Postcomm iddo o ystyried yr ystadegau a gyflwynir yn yr adroddiad, a'r ystadegau manylach yn adroddiad ategol ERM/MORI yw bod yn rhaid i bolisiâu sy'n ymdrin â chau swyddfeydd post gwledig, ganolbwyntio ar ba mor hawdd yw hi i bobl gyrraedd swyddfeydd post yn hytrach nag ar faint y dylid eu cau. Mae hyn yn bwynt allweddol, y mae'r adroddiad yn dychwelyd ato yng nghyd-destun datblygu polisi cyhoeddus yng Nghymru.

- 3.9 Mae adroddiad blynyddol Postcomm yn adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes gan Uned Perfformiad a Blaengaredd y Cabinet a fu'n edrych ar rwydwaith y swyddfeydd post gan gyhoeddi ei gasgliadau fis Mehefin 2000.

Yn y rhagymadrodd i adroddiad yr Uned dywed y Prif Weinidog, Tony Blair :

‘Britain’s post offices are a vital part of the fabric of our country...post offices are more – much more – than just businesses. Especially in rural areas. The Government values the Post Office Network. We want to see it thrive.

‘But there are also challenges. The trend towards a cashless society...means the traditional work of the Post Office needs to change and respond to the service requirements of increasingly sophisticated customers in a changing world.’

Yn yr adroddiad ei hun, nodir nifer o bwyntiau allweddol, gan gynnwys:

- Mae swyddfeydd post yn cyfrannu llawer mwy at eu cymunedau na darparu lle i gyflawni trafodion

- Mae Swyddfa'r Post wedi bod braidd yn araf i foderneiddio'r fframwaith yn wyneb amgylchedd busnes sy'n newid yn gyflym. Mae cyfleoedd i arallgyfeirio i fathau newydd o fusnes, gan gynnwys:
 - Banc Cyffredinol newydd fel rhan o Swyddfa'r Post i fynd i'r afael ag allgáu ariannol a chyfleoedd bancio eraill;
 - e-fasnach;
 - siopau un alwad ar gyfer gwybodaeth gan y Llywodraeth a thrafodion; a
 - modd i ddefnyddio a dysgu ar y rhyngwyd
- Dylid diogelu swyddfeydd post gwledig. Dylai'r Llywodraeth fynnu bod Swyddfa'r Post yn cynnal y rhwydwaith gwledig ac yn osgoi cau unrhyw swyddfeydd post yn ddiangen.
- Dylid mabwysiadu'r polisi hwn – yn y lle cyntaf – tan 2006. Mae'n bosibl y bydd angen i'r llywodraeth roi cymorth ariannol i'r rhwydwaith gwledig am gyfnod. Mae Mesur y Gwasanaethau Post yn eu galluogi i wneud hynny.

Nodwyd rhai nodweddion allweddol yn yr adroddiad sy'n arbennig o berthnasol wrth edrych i'r dyfodol a rôl rhwydwaith y swyddfeydd post yng nghefn gwlad Cymru.

Gan Swyddfa'r Post y mae'r nifer fwyaf o unedau adwerthu yn y Deyrnas Gyfunol.

Tabl 7 Maint rhwydweithiau adwerthu yn y DG, 1999	
Rhwydweithiau adwerthu	Bras amcan o nifer yr unedau adwerthu
Swyddfeydd post	18,500
Spar	2,700
Lloyds TSB	2,500
Gorsafoedd petrol	1,600
William Hill	1,500
Fferyllfa Lloyds	1,400
Boots	1,400
Halifax	800
Woolworth	800
Tesco	590
Sainsbury	340
Marks and Spencer	290
Ffynhonnell: adroddiad PIU, 2000	

Y mae hefyd yn fuddiol nodi maint rhwydwaith Swyddfa'r Bost o'i gymharu â rhwydweithiau eraill.

Tabl 8 Maint y rhwydweithiau eraill yn y DG, 1999	
Math o rwydwaith	Bras amcan o nifer yr unedau
Addoldai	Hyd at 45,000
Tafarndai	41,800
Peiriannau Twll-yn-y-Wal	28,200
Ysgolion cynradd	23.100
Swyddfeydd post	18,500
Banciau a chymdeithasau adeiladu	14,400
Gorsafoedd petrol	13,700
Meddygfeydd	11,000
Llyfrgelloedd	4,900
Gorsafoedd heddlu	2,000
Swyddfeydd Asiantaethau Budd-daliadau a chanolfannau gwaith	1,400
Ysbytai a chyfleusterau Damweiniau ac Achosion Brys	250
Ffynhonnell: adroddiad PIU, 2000	

Mae hyn yn atgyfnerthu rôl y swyddfa bost yn 'hunaniaeth y Gymuned' ond nid yw'n golygu dim o safbwynt ei hyfywedd masnachol mewn ardal wledig benodol.

- 3.10 Busnesau bychain yw'r swyddfeydd post sy'n cael eu cadw gan amlaf gan berchnogion busnes hunangyflogedig. Mae cyn lleied â 3% o'r rhwydwaith cyfan yn eiddo i Swyddfa'r Post ei hun, ac yn cyflogi staff Swyddfa'r Post. Yn y trefi mawr a'r dinasoedd, swyddfeydd post y Goron yw'r llefydd hyn yn ddieithriad.

Mae nifer gynyddol o'r swyddfeydd post hyn yn cael eu rhedeg gan gwmnïau mawr fel Spar, Alldays a Forbuoys yn eu siopau presennol.

Mewn ardaloedd gwledig bydd y swyddfa bost a siop y pentref yn un. Mae hyn yn dwysáu'r broblem sy'n wynebu cymuned leol pan fo gwasanaethau'r swyddfa bost mewn trafferthion.

Mae swyddfeydd post yn cael eu prynu a'u gwerthu fel busnesau unigol. Mae gan Swyddfa'r Post ei hun wasanaeth ar ei gwefan sy'n rhestru'r holl fusnesau swyddfeydd post sydd ar werth. Problem allweddol yn y gorffennol, fodd bynnag, yw pryd, yn ystod y broses gwerthu/ymadael, y caiff Swyddfa'r Post wybod am ddymuniad yr is-bostfeistr neu feistr i adael y busnes. Mae'n broblem sy'n arbennig o amlwg yng nghefn gwlad Cymru lle mae hanesion am berchnogion swyddfeydd post sy'n gyndyn o 'hysbysebu' y ffaith eu bod yn ceisio gwerthu'r busnes. Gan hynny, maent yn amddifadu Swyddfa'r Post o'r

cyfle i'w cynorthwyo i ddod o hyd i brynwr neu ateb arall i'r problem, ac mae cau'r swyddfa bost wedyn yn anochel.

Mae Swyddfa'r Post wedi ymdrin â'r sefyllfa yn gadarnhaol, ac mae Cymru'n cymryd camau arloesol drwy benodi nifer o Gynghorwyr Trosglwyddo Gwledig. Ystyrir rôl y rhain yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

3.11 Sut mae Rhwydwaith y Swyddfeydd Post yn cael ei ariannu

Mae'r ffordd y mae'r rhwydwaith yn cael ei ariannu'n eithaf cymhleth ond mae angen ei deall wrth edrych ar broblemau penodol sy'n wynebu swyddfeydd post gwledig.

Dyma brif ffynonellau eu hincwm:

- Yr Asiantaeth Budd-daliadau am daliadau ariannol neu fudd-daliadau
- Y Post Brenhinol a Parcelforce am werthu stampiau a thrafod parseli
- Contractau talu biliau gyda chyrrff megis awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus
- Contractau bancio; y pwysicaf o bell ffordd ymhlith y rhain yw hwnnw â Girobank
- Busnes National Savings
- Gwerthu tocynnau loteri ar ran Camelot
- Busnes arall y Llywodraeth
- Gweithgarwch masnachol arall megis bureau de change

Mae dau gategori o daliadau a gaiff yr is-bostfeistr neu feistres; sefydlog a newidiol. Mae'r elfen sefydlog yn berthnasol i'r swyddfa bost benodol ac nid yw'n dibynnu ar faint o fusnes a wneir. Mae'r elfen newidiol, fodd bynnag, yn dibynnu ar nifer y trafodion neu ar werth y gwahanol fathau o drafodion sy'n digwydd yno. Wrth i gyfanswm y taliadau a gaiff is-swyddfa bost gynyddu, mae'n anochel bod yr elfen sefydlog yn gostwng, ac fel y gellid disgwyl, y swyddfeydd post, rhan amser yn aml, yn y pentrefi gwledig bychain, yw'r rheini lle mae'r holl daliadau, neu'r rhan helaethaf ohonynt, yn sefydlog.

Incwm cyfartalog postfeistr neu feistres swyddfa bost gwledig yw rhwng £8,000 a £10,000 y flwyddyn.

3.12 Mae amrywiaeth o contractau sy'n pennu'r ffordd y gwneir taliadau. Fe'u rhestrir isod:

Tabl 9 Y gwahanol fathau o contractau a ddefnyddir gan Swyddfa'r Post ar gyfer yr is-swyddfeydd post, 1999		
Math o contract	Bras amcan o nifer y	Nodweddion

	swyddfeydd post	
Tâl graddfa	14,900	Mae'r elfen sefydlog yn benodol i bob swyddfa bost. Mae cyfradd yr elfen newidiol yr un fath ar gyfer pob swyddfa bost. Seilir y contract at dri mis o rybudd gan y naill ochr a'r llall.
Cymuned	2,000	Tebyg i'r contract tâl graddfa, ond mae'r elfen tâl sefydlog yn rhannol ddibynnol ar oriau agor.
Wedi'i addasu	600	Y contract ar gyfer Canghennau a addaswyd. Mae'r telerau'n debyg i delerau'r contract tâl graddfa, ond mae pob swyddfa'n cael elfen tâl sefydlog o £15,000.
Rhyddfrait cwmni	225	Math newydd o gontract. Cytundeb rhyddfrait pum mlynedd a anelir at adwerthwyr siopau cadwyn. Mae angen safonau uchel ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf a lefelau gwasanaeth. Mae taliadau'n cynnwys elfen newidiol ynghyd â phremwim sy'n gysylltiedig â maint y busnes. Mae'r canlyniad yn ymdebygu i strwythur tâl sefydlog a newidiol.
Rhyddfrait annibynnol	45	Tebyg i'r contract rhwyddfrait cwmni ond wedi'i anelu at adwerthwyr siopau cadwyn.
Ffynhonnell: adroddiad PIU , 2000 / Swyddfa'r Post		

Nodweddion allweddol y dull o ariannu rhwydwaith y swyddfeydd post yng nghyd-destun yr adroddiad hwn yw fod swyddfeydd post gwledig yn cael eu cynnal gan y rhwydwaith trefol sy'n gwneud elw. Mae tua 90% o'r rhwydwaith trefol yn gwneud elw. Ar y llaw arall, mae'r rhwydwaith gwledig yn gwneud colled o thua £25 miliwn y flwyddyn. Mae tua 60% o swyddfeydd post gwledig yn gwneud colled i'r rhwydwaith.

3.13 Pa wasanaethau mae rhwydwaith y swyddfeydd post yn eu cynnig?

Mae swyddfeydd post yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau. Yn draddodiadol, y brif ffynhonnell busnes yw prosesu budd-daliadau a'r gwasanaethau post. Yng nghyswllt y ffioedd a dderbynnir am brosesu'r budd-daliadau hyn, mae Swyddfa'r Post yn wynebu cryn her gyda'r penderfyniad i dalu'r holl fudd-daliadau i gyfrif banc.

Dim ond nifer gyfyngedig o swyddfeydd post sy'n gallu cynnig ambell wasanaeth. Er enghraifft, yn y DG gyfan, dim ond 4,000 o swyddfeydd post sy'n gallu cynnig gwasanaeth trwyddedu cerbydau dros y cownter a 1,500 sy'n gallu cynnig gwasanaeth i'r rhai sy'n gwneud cais am

basport. Mae'r penderfyniad i gynnig gwasanaethau bureaux de change yn berthnasol i bob swyddfa bost ond dim ond 600 ohonynt yn y DG sy'n cynnig y gwasanaeth yn ôl y galw.

Gan amlaf, nid yw Swyddfa'r Post yn cyfrannu dim tuag at gostau dodrefnu siop a sicrhau diogeledd y cownter. Mae'r is-bostfeistri a meistresi'n ystyried yr elw a geir wrth werthu swyddfa bost fel ffordd o ariannu pensiwn.

3.14 Yn sicr, o safbwynt swyddfeydd post gwledig mae gweithgarwch masnachol nad yw'n ymwneud â masnach swyddfa bost yn hanfodol. O ganlyniad, un o nodweddion swyddfeydd post gwledig yw eu bod yn cynnig gwasanaeth masnachol ychwanegol. Mae'r contractau rhwng yr is-bostfeistr neu feistres a Swyddfa'r Post yn cyfyngu rywfaint ar y gweithgarwch preifat a ganiateir:

- Ni chaniateir iddynt ymgymryd â gweithgareddau a gynigir eisoes gan eu swyddfa bost. Enghraifft dda o hyn yw na chaniateir iddynt gael contract â gweithredwyr y loteri i werthu tocynnau os yw'r tocynnau eisoes yn cael eu gwerthu fel rhan o fusnes eu swyddfa bost.
- Ni chaniateir iddynt gynnig gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan swyddfeydd post lleol eraill hyd yn oed os nad yw eu swyddfa bost hwy'n eu cynnig.
- Ni chaniateir iddynt gynnig cynnyrch na gwasanaethau sy'n cael eu cynnig fel rhan o fusnes eu swyddfa bost. Enghraifft dda o hyn fyddai cynnig gwasanaethau cludo parseli ychwanegol.

3.15 Rhoddir cryn bwyslais ar bwysigrwydd swyddfeydd post mewn ardaloedd gwledig ond mae'n bwysig cydnabod bod rhwydwaith y swyddfeydd post gwledig wedi bod yn dirywio'n raddol, ac fel yr esboniwyd eisoes, mae'r dangosyddion i gyd yn awgrymu bod y pwysau ar nifer sylweddol o swyddfeydd post gwledig yn parhau. Mae oed y postfeistr neu'r bostfeistres yn arwyddocaol iawn.

Y broblem sy'n wynebu Swyddfa'r Post yn ddieithriad wedyn yw dod o hyd i is-bostfeistr neu bostfeistres newydd. Pan ddaw'n hysbys bod postfeistr neu bostfeistres yn gadael, bydd ymgyrch leol yn aml yn datblygu. Dyma pryd, hefyd, y bydd swyddfa bost yn cau dros dro oni lwyddir i ddod o hyd i is-bostfeistr neu bostfeistres newydd. Os na fydd y sefyllfa'n newid, yna mae'n bosibl na fydd dewis ond cau'r swyddfa bost. Dyma rai o'r rhesymau dros fethu dod o hyd i is-bostfeistr neu bostfeistres newydd:

- Dyfodol ariannol ansicr, sy'n golygu nad oes neb yn fodlon ymgymryd â'r gwaith
- Demograffeg a ffordd o fyw sy'n prysur newid, sy'n golygu bod llai o bobl yn fodlon ymgymryd â'r gwaith sydd ynghlwm wrth swyddfeydd post gwledig bychain

- Prinder adeiladau oherwydd prisiau tai uchel, sy'n ei gwneud yn fanteisiol prynu is-swyddfa bost a'i throï'n dŷ annedd.

Yn y gorffennol, pan gaewyd swyddfa bost yr oedd yn bur annhebygol y byddai'n ailagor. Mae Swyddfa'r Post, fodd bynnag, wedi cymryd camau ymarferol i fynd i'r afael â'r broblem. Fel y soniwyd ynghynt, penodwyd pedwar Cynghorydd Trosglwyddo Gwledig yng Nghymru. Llwyddodd yr unigolion hyn i osgoi cau swyddfeydd post dros dro ac yn barhaol. Mae eu gwaith yn y maes hwn yn cael cryn effaith yng Nghymru.

- 3.16 Gall cynlluniau eraill hefyd leihau nifer y swyddfeydd post gwledig sy'n gorfod cau. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu clystyru a strwythurau sy'n eiddo i'r gymuned; byddwn yn rhoi rhagor o sylw i'r rhain yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Mae Swyddfa'r Post wedi priodoli llawer o'r llwyddiant a gafodd yng Nghymru yn uniongyrchol i'w dull o weithredu'n gadarnhaol. Mae'r hyn a ddigwyddodd ym Mynydd Llandegái yn un enghraifft o hyn. Cynigiwyd gwasanaethau swyddfa bost gan yr is-bostfeistres o'i chartref preifat tan y penderfynodd ymddeol fis Rhagfyr 2000. Pan gynigiodd ei hymddeoliad, cadarnhaodd y bostfeistres na fyddai modd defnyddio'i heiddo i redeg unrhyw swyddfa bost yn y dyfodol.

Ar y dechrau, dangosai perchennog busnes beth ddiddordeb mewn ymgymryd â gwaith y swyddfa bost, ond methu wnaeth y cynllun. Wrth drafod y sefyllfa â'r Cyngor Cymuned, soniodd Swyddfa'r Post am y posibilrwydd o ddefnyddio'r Neuadd Goffa leol. Ar ôl cytuno o ran egwyddor i ddefnyddio'r neuadd, gwnaed ymgais i ddod o hyd i ymgeisydd ar gyfer swydd yr is-bostfeistr neu feistres. Cafwyd hyd i unigolyn o'r pentref cyfagos ac mae'r gwasanaeth wedi ailagor, ar ddydd Gwener rhwng 9 a.m. ac 1 p.m. ar y dechrau, ond erbyn hyn y mae ar agor ddau fore'r wythnos, dydd Mawrth a dydd Iau rhwng 10 a.m. a hanner dydd.

Mae cyfleoedd niferus yn bod yn awr i gysylltu'r pedwar Cynghorydd â'r rhwydweithiau busnes a chymunedol presennol yng Nghymru.

3.17 Problemau trosglwyddo/sicrhau parhad gwasanaethau swyddfeydd post

Daeth adroddiad Postcomm i'r casgliad yr ymddengys nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng lefel yr incwm a gynhyrchir gan swyddfa bost wledig a pha mor hawdd yw trosglwyddo'r busnes. Mae'n amlwg y bydd swyddfa bost sy'n cynhyrchu incwm uchel yn denu mwy o ddiddordeb gan bobl sydd mewn sefyllfa i ystyried ymgymryd â'r gwaith. Gall gwahanol is-bostfeistri a meistresi fod â gwahanol syniadau ynghylch yr hyn a ystyrir yn incwm derbyniol. Mae prinder gwybodaeth hefyd am faint a natur gwasanaethau adwerthu a gynigir ar y cyd â gwasanaethau'r swyddfa bost. Mae hyn eto'n ei gwneud yn anodd penderfynu beth sy'n hyfyw .

Gan dderbyn argymhellion adroddiad PIU mae'r llywodraeth wedi pennu cyfrifoldeb cymdeithasol Consignia yng nghyswllt ei rwydwaith o swyddfeydd post gwledig. Mae'r argymhelliad na ddylid cau unrhyw swyddfa bost wledig yn anorfod tan 2006 yn awr yn un o'r gofynion. Mae'r ymrwymiad cymdeithasol pendant hwn wedi arwain at ddatblygiadau allweddol; soniwyd am rai ohonynt eisoes:

- Penodi uwch reolwr i sicrhau bod polisi gwledig Rhwydwaith Swyddfa'r Post wedi'i lunio i osgoi cau swyddfeydd post
- Adolygu'r drefn a ddilynir gan Rwydwaith Swyddfa'r Post pan fo perygl y bydd yn rhaid cau swyddfa bost wledig.
- Bwriad i gynnwys y trefniadau diwygiedig hyn mewn cod ymarfer ffurfiol a fydd yn cynnwys:
 - Ymgynghori'n ehangach â grwpiau a fydd o bosibl yn gallu bod o gymorth (e.e. awdurdodau lleol, Cyngorau Cymuned, Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri neu grwpiau eraill sy'n bod eisoes yng Nghymru o bosib, neu a sefydlir o ganlyniad i'r adroddiad hwn)
 - Proses strwythurol i ystyried darparu gwasanaethau ar wahanol ffurf (e.e. mewn llefydd neu adeiladau gwahanol)
 - Archwilio'r posibilrwydd o gynnwys grwpiau gwirfoddol
 - Cynnwys adolygiad fel rhan o'r broses pe gorfodid swyddfa bost i gau
- Creu swyddi ar gyfer Cyngorwyr Trosglwyddo Gwledig
- Gweithio i adolygu'r contract safonol i'w gwneud hi'n haws i grwpiau cymunedol sefydlu a rhedeg swyddfeydd post
- Diddymu'r tâl cychwynnol o 25% o incwm y flwyddyn gyntaf
- Sefydlu clwb masnachu ar gyfer is-bostfeistri, mewn partneriaeth â Ffederasiwn Cenedlaethol y Postfeistri. Nod y clwb fyddai datblygu a gwella'r gweithgarwch adwerthu presennol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau post
- Cyflwyno llinellau cymorth
- Datblygu gwefan sy'n rhoi cyngor ar sut i fod yn is-bostfeistr neu feistres ac, fel y soniwyd eisoes, hysbysebu'r swyddfeydd post sydd ar werth.

Fel rhan o'r ymgyrch hon gan Consignia i weithredu'n gadarnhaol i fynd i'r afael â'r broblem o gau swyddfeydd post, bu hefyd broses o ailstrwythuro mewnol a arweiniodd at sefydlu uned newydd, Swyddfeydd Post Cyf., sy'n dod â staff rhwydwaith Swyddfa'r Post ac unedau Consignia ynghyd i hybu cynllun strategol ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau newydd ac i symleiddio'r gweithrediadau.

- 3.18 O ystyried hyn ar y cyd â'r cyfrifoldeb cymdeithasol a roddir yn awr ar swyddfeydd post i sicrhau na chaeir yr un swyddfa bost mewn ardal wledig os oes modd osgoi hynny, tan 2006, ymddengys bod Consignia yn wynebu problem strategol. Sut mae modd i'r cwmni fynd ati i gynllunio i sicrhau bod swyddfeydd post mewn ardaloedd gwledig wedi'u dosbarthu mewn modd sy'n cwrdd ag anghenion y boblogaeth

ac yn bodloni gofynion is-bostfeistri a meistresi, os nad yw'n gwybod yn iawn beth sy'n eu denu at y busnes ac yn eu cadw yno, ac os nad oes modd iddynt gau swyddfeydd post yn strategol oherwydd cyfyngiadau a orfodir arnynt gan y Llywodraeth, hyd yn oed pe bai penderfyniad i'w cau o bosibl yn fanteisiol o safbwynt parhad gwasanaethau post yn yr ardaloedd dan sylw. Wrth ddweud 'os oes modd osgoi hynny' mae perygl cynhenid y ceisir cau swyddfeydd post ar sail 'nad oes modd osgoi hynny' pan fyddai modd defnyddio'r uned mewn ffyrdd mwy defnyddiol.

- 3.19 Mae nodweddion masnachol eraill yn rhoi rhagor o bwysau ar rwydwaith y swyddfeydd post gwledig. Mae data trafodion Swyddfa'r Post yn awgrymu bod nifer y trafodion yn gostwng yn gynt na chyfradd y gostyngiad yn nifer y swyddfeydd post.

Mae nifer y trafodion dros gownteri swyddfeydd post yn parhau i ostwng o flwyddyn i flwyddyn gyda gostyngiad o 8% yn ystod 2000. Bydd rhagor o bwysau ar y duedd hon wrth i ni nesáu at 2003, sef y dyddiad a dargedwyd gan y Llywodraeth ar gyfer talu'r holl fudd-daliadau yn syth i gyfrif banc.

Mae nifer o gwsmeriaid yn dal i ddefnyddio swyddfeydd post ond yn eu defnyddio'n llai aml. Mae hyn yn amlwg yn cael effaith niweidiol ar incwm y swyddfa bost ac mae goblygiadau ychwanegol o safbwynt maint y rhwydwaith ar hyn o bryd. Os gadewir i'r rhwydwaith wynebu grym y farchnad ymddengys yn anochel y bydd yn parhau i grebachu.

- 3.20 Mae pwysau eraill y mae'n rhaid eu hystyried yn erbyn y cefndir hwn:

- Mae'n bosibl mai prin fydd effaith dulliau eraill o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig anghysbell, yn enwedig o safbwynt y rhai nad yw'n hawdd iddynt ddefnyddio cludiant preifat.
- Wrth ddadansoddi rhwydwaith y swyddfeydd post, prin yw'r sylw a roddir yn draddodiadol ar dulliau penodol o sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn y gymuned ac ar ansawdd y gwasanaethau, ac ar yr union bellter y mae'n rhaid i ddefnyddwyr ei deithio i gyrraedd swyddfa bost.
- Nid oes fformwla gytunedig i bennu gwerth swyddfeydd post i gwsmeriaid a'r gymuned leol a chan hynny i asesu a oes modd cyfiawnhau eu hariannu ag arian cyhoeddus traddodiadol ac a'i drwy ddilyn y llwybr adwerthu neu drwy ddull arall, y gellir ymdrin orau ag anghenion y gymuned.
- Nid yw'r rheini sy'n defnyddio'r swyddfeydd post amlaf yn debygol o fod â'r modd i ddefnyddio gwasanaethau sy'n seiliedig ar y dechnoleg newydd, neu nid yw'n debygol y byddant yn hoff o'u defnyddio. Ond nid yw hyn, o reidrwydd, yn rheswm dros beidio â mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd y mater hwn nac

i gydnabod y gellid defnyddio'r dechnoleg newydd i ddenu math newydd o gwsmeriaid i'r swyddfeydd post a fyddai'n cynorthwyo i sicrhau bod dyfodol iddynt.

3.21 Mae datblygiadau eraill hefyd yn effeithio'n uniongyrchol ar faterion sy'n ymwneud â dyfodol swyddfeydd post gwledig. Ystyrir y rhain yn aml yn fygythiad er bod modd iddynt, yn eu tro, gynnig cyfleoedd. Mae'r rhain wedi'u cofnodi'n drylwyr ac nid oed angen manylu arnynt yma. Mae rhai'n ymwneud yn benodol â swyddfeydd post ac mae eraill yn fwy cyffredinol eu natur sy'n cael effaith fwy cyffredinol ond arwyddocaol ar fywyd yng nghefn gwlad Cymru. Maent yn cynnwys:

- Newidiadau sylweddol ym mhoblogaeth a ffyrdd o fyw mewn cymunedau gwledig.
- Datblygu'r dechnoleg newydd a sianeli gwasanaethau eraill megis peiriannau arian, arian yn ôl wrth dalu, talu biliau a masnachu ar y rhyngwyd
- Cystadleuaeth adwerthu gref yn seiliedig ar:
 - Dwf archfarchnadoedd a 'siopau pob dim'
 - Amrywiaeth ac ansawdd y nwyddau sydd ar gael
 - Rheoliadau cyflogaeth newydd e.e. oriau gwaith
 - 'Siopau pob dim' yn ymosodol yn eu hawydd i brynu swyddfeydd post
 - Crynhoi nwyddau mewn 'siopau pob dim'
 - Grym cwmnïau siopau cadwyn fel Spar a Londis
- Fframwaith rheoleiddio newydd o 26 Mawrth 2001 pan fydd Postcomm yn trwyddedu Consignia i weithredu'r gwasanaethau post. Er mai Consignia yw'r unig ddarparwr cyffredinol ar gyfer y DG gyfan mae dyletswydd ar Postcomm i gyflwyno elfen o gystadleuaeth heb amharu ar y gwasanaeth cyffredinol a gynigir. Bydd hyn yn rhoi pwysau anochei ar Consignia i gynnig gwasanaethau mwy effeithlon.

I gloi, ac i dywyllu'r darlun ymhellach, mae'r defnydd a wneir o arian parod, arfer y mae swyddfeydd post mor ddibynnol arno, yn gostwng ar gyfradd o 1% bob blwyddyn.

3.22 Yr ymateb

Mae'r elfen ganolog yn nyfodol rhwydwaith presennol y swyddfeydd post gwledig yng Nghymru, yr un fath ag ydyw ar gyfer unrhyw wasanaeth adwerthu gwledig; cynyddu'r nifer sy'n croesi'r rhiniog. Yn syml iawn, po fwyaf sy'n galw heibio i'ch swyddfa bost, eich siop neu'ch tafarn, mwyaf i gyd yw'ch siawns o werthu rhywbeth a chreu incwm. Nodir y materion sy'n berthnasol i unedau adwerthu eraill yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Mae gan swyddfeydd post, fodd bynnag, rai manteision allweddol yn hyn o beth. Mae dau ddatblygiad penodol yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol; cyflwyno'r System Bancio

Cyffredinol a datblygu'r cynllun 'Your Guide'. Bydd y ddau ddatblygiad hwn yn adeiladu ar y rhaglen 'Horizon'.

- 3.23 Ymdrech uchelgeisiol, a llwyddiannus yn y pen draw, oedd y rhaglen 'Horizon' i gysylltu'r holl swyddfeydd post ag un system gyfrifiadurol. Wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn dim ond tair swyddfa bost yng Nghymru oedd heb eu cysylltu â system Horizon. Mae problemau cynllunio'n ymwneud â'r angen i ddefnyddio plât lloeren mewn perthynas ag un ohonynt, mae un arall yn disgwyl i'r is-bostfeistr newydd gael ei hyfforddi ac ni chysylltwyd y drydedd oherwydd gwrthwynebiad yr is-bostfeistr.

Mae'n bosibl yn awr i'r system Horizon:

- Symleiddio trefniadau mewnol Swyddfa'r Post
- Lleihau gwaith papur a gwella effeithlonrwydd ac ansawdd
- Cynnig amrywiaeth o ddewisiadau electronig fforddiadwy ar gyfer y rhwydwaith i gyd

Er enghraifft, erbyn hydref 2002 bydd modd i gwsmeriaid brynu stampiau drwy ddefnyddio cerdyn debyd ac mae trefniant ar y gweill gyda'r banciau drwy gyfrwng LINK a fydd yn galluogi cwsmeriaid i godi arian a rhoi arian a sieciau yn eu cyfrif drwy ddefnyddio swyddfeydd post a chael cadarnhad y banciau ar lein.

3.24 Y Banc Cyffredinol

Ni fydd yr adroddiad hwn yn manylu'n ormodol ar y System Bancio Cyffredinol a gyflwynwyd. Mae'n anodd dynodi agweddau y byddai modd i'r Cynulliad neu unrhyw sefydliad Cymreig ddatblygu darpariaeth wahanol neu ddiwygiedig yn ei lle. Yn wir, y mae'r un mor anodd gweld beth fyddai manteision model Cymreig penodol o ystyried bod darpariaeth y Banciau a Consignia yn ymestyn ar hyd a lled y DG.

Y mae'n bwysig, fodd bynnag, deall y syniad sylfaenol gan fod posibilrwydd iddo gael cryn effaith ar gynyddu'r nifer sy'n croesi rhiniog swyddfeydd post a bydd hynny, yn ei dro, o fantais uniongyrchol i swyddfeydd post yng nghefn gwlad Cymru ac yn her anuniongyrchol i unedau adwerthu eraill. Dyma ddyfyniad o adroddiad Postcomm sy'n esbonio'r model presennol.

'The current model of the Universal Banking Services is a broader and more sustainable proposal. It will consist of two elements. Under the first element, the banks will make their basic bank account available at post offices. These accounts are being developed by banks following Government pressure on them not to exclude already disadvantaged people from the financial services they offer. Basic banking demands simple current accounts, suitable for those who are wary of traditional bank accounts and need help in avoiding debt. The banks will pay

commercial fees to Post Office Network for the provision of counter services to their customers.

'For those who will not use any form of mainstream bank account to receive their benefits there will be a new Post Office Card Account. This account, available only through post offices, will allow benefits claimants to access their benefits in cash at post offices using a Post Office based card instead. It will have the following features:

- credits only accepted from Government agencies and only by ACT (Automated Credit Transfer)
- cash withdrawals at post offices
- balance enquiries at post offices
- no transaction charge to customers
- account accessed by plastic card
- no interest paid on balances

'Eleven banks have already agreed to make basic accounts accessible through post offices and to contribute jointly a total of £180million over five years to the costs of running the Post Office Card Account. These institutions between them hold 99% of current accounts in the UK. All have now signed a Memorandum of Understanding which sets out the broad agreement. The next stage for each is negotiations with Post Office Network on the details. Post Office Network hopes at the same time to encourage more banks to use post offices for Network Banking – with access to all bank customers to their bank accounts over post office counters.'

Bydd y System Bancio Cyffredinol a gyflwynwyd ac a seiliwyd ar Rwydwaith Swyddfa'r Post, ynghyd â'r datblygiadau dilynol y mae Swyddfa'r Post yn gobeithio'u cyflwyno yn cyfrannu cryn dipyn at y gwaith o fodloni gofynion y gwasanaeth a nodir yn Nhabl 10. Gellid bodloni gofynion eraill drwy gyflwyno'r cynllun 'Your Guide' yn gyflym.

3.25 'Your Guide'

Cynllun arbrofol yw 'Your Guide' sy'n cael ei weithredu mewn swyddfeydd post gwledig, trefol a threfol defreintiedig yn Swydd Gaerlyr a Rutland. Yn ei hanfod, canolfan wybodaeth ydyw sy'n rhoi modd i'r cyhoedd gael gwybodaeth gan y llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a'r sector preifat. Mae'r cynllun arbrofol presennol yn cynnwys gwybodaeth gan 30 o ddarparwyr sy'n cyfrannu at y wybodaeth sydd ar gael. Darperir gwybodaeth ar gyfer saith o feysydd cyffredinol :

- swyddi a hyfforddiant
- hysbysebion a hysbysiadau
- gwybodaeth leol
- ymddeol

- gwasanaethau llywodraeth leol
- budd-daliadau a hawliau
- materion ariannol a chyfreithiol

Mae modd cael gwybodaeth drwy bum cyfrwng gwahanol:

- Sgrin gyffwrdd
- Rhad-ffôn gydag 20 llinell gymorth
- Argraffu ffurflenni a thafleini ffeithiau
- Tafleini
- Cymorth dros y cownter

Rhennir trefniant y cyfryngau hyn mewn unrhyw swyddfa bost benodol yn chwe categori yn amrywio o A1, sydd â dwy sgrîn gyffwrdd a llinellau cymorth rhad-ffôn sy'n defnyddio pedwar metr o wal, i categori D sy'n darparu gwasanaeth dros y cownter ar gyfer 'Your Guide'. Defnyddir tri ffactor wrth benderfynu sut i gategoreiddio swyddfa bost:

- Y lle sydd ar gael
- Faint o bobl sy'n croesi'r rhiniog
- Oriau masnachu

Ymddengys bod y cynllun arbrofol wedi bod yn llwyddiant mawr ac o ganlyniad, mae Swyddfa'r Post yn awyddus i ehangu'r gwasanaeth ar hyd a lled y DG cyn gynted ag y bo modd. Y Llywodraeth ar y cyd â Consignia sy'n ariannu'r gwaith o osod yr offer, hyfforddi'r is-bostfeistri a'r meistresi a recriwtio 'Asiantaethau Newid' sydd ar gael i sicrhau bod cwsmeriaid yn ymgyswrttu â'r gwasanaeth newydd.

Ymddengys bod y gwasanaeth hwn a chynlluniau eraill sydd ar y gweill yng Nghymru yn gorgyffwrdd yn sylweddol. Er enghraifft, mae nifer o awdurdodau lleol wrthi'n ceisio cyflwyno system wybodaeth amdanynt hwy eu hunain ac mae ELWa yn awyddus i gyflwyno cyfleoedd dysgu yn y gymuned sy'n seiliedig ar Dechnoleg Gwybodaeth. Fel y nodwyd ar ddechrau eu hadroddiad, nid oes neb â mwy o unedau adwerthu na Swyddfa'r Post a'u rhwydwaith hwy, o'r holl rwydweithiau a nodwyd, yw'r hawsaf o bell ffordd i'w gydgysylltu. Y fantais fawr arall, wrth gwrs, yw fod y rhwydwaith cyfathrebu a fyddai'n hwyluso'r broses o gyflwyno'r system eisoes wedi'i sefydlu drwy raglen Horizon

3.26 Cronfa Cyfalaf

Mae'r Llywodraeth wedi sicrhau bod £2miliwn ar gael i gynorthwyo'n benodol â thalu costau cyfalaf datblygu neu addasu is-swyyddfeydd post mewn cymunedau lle byddent, fel arall, yn cau. Bydd y grantiau'n cael eu gweinyddu gan Swyddfa'r Post Cyf. Ac fe'u targedir yn benodol at gostau cyfalaf.

Dyma'r canllawiau manwl:

The scheme has been introduced to provide an additional source of funding to assist in circumstances where a rural post office branch has recently closed, or is likely to close, and where, but for the payment of a subsidy, it appears likely that the community in question would lose its post office branch permanently. The scheme is not intended to replace existing sources of grants, but provides an additional sources of funding in cases where the associated set up costs cannot be met from elsewhere.

The scheme creates a fund of £2million, from which payments not exceeding £20,000 per application are available. For an application to be successful, all of the following initial criteria must be met:

- *A sub post office in a rural settlement has closed within the 18 months preceding the making of the application for a payment; or it appears that an existing sub post office in a rural settlement is likely to close within six months but for the making of a payment.*
- *It appears that, but for the making of a payment, no replacement sub post office will be established in that settlement.*
- *The reopening of a post office in that settlement would not adversely affect other sub post offices in the vicinity.*
- *There is a suitable person willing to act as sub postmaster or mistress in respect of any proposed replacement sub post office.*
- *The settlement in question has a population of fewer than 10,000 inhabitants.*

As implied in the name of the scheme, subsidy is only available towards the costs certain defined eligible items required for the re-establishment or continued operation of the post office branch in question. Examples of eligible items are:

- *Building works and structural alterations*
- *Installation of partitions, screens, counters and store cupboards*
- *Improvements to the means of access to the premises*
- *Redecoration and making good of the premises*
- *Provision of fixtures, fittings, furniture and equipment*
- *Provision of water supply, electricity supply, telephone lines, and other services to the premises*
- *Costs of obtaining planning permission, building regulation approvals and other consents and approvals*
- *Legal costs and other professional fees*

Applicants who believe that they may qualify for a subsidy from the scheme must complete and submit an application form, the contents of which will be verified and adjudicated against the defined criteria. Successful applicants will of course be required to produce documentary evidence at various stages of the process, such as estimates, invoices, receipts etc.

Ffynhonnell: Swyddfa'r Post Cyf

Pe bai'r holl grantiau a roddwyd yn cael eu rhoi'n llawn h.y. £20,000, yna dim ond cyfanswm o 100 o gynlluniau y gellid eu cynorthwyo drwy'r DG gyfan. Os, ar y llaw arall, cymhwysir y ffigwr o 5% ar gyfer Cymru fel arweiniad i lefel y gymorth a fyddai ar gael yng Nghymru, yna dim ond 100,000 fyddai ar gael. Os rhoddir £20,000 ar gyfer pob grant, dim ond 5 cynllun swyddfa bost gymunedol y byddai modd eu cynorthwyo yng Nghymru. Hyd yma, cafwyd tri chais o Gymru, a chymeradwywyd un ohonynt eisoes.

Mae'r lefel hon o gymorth ariannol yn hanfodol o safbwynt dyfodol swyddfeydd post sydd â hyfywedd masnachol ansicr. Nid yw arian Ewropeaidd ar gael, wrth gwrs, ar gyfer gweithgarwch adwerthu oni bai ei fod yn cael ei strwythuro drwy gynllun cymunedol. Efallai fod hyn yn briodol mewn rhai amgylchiadau ond, gall fod yr un mor debygol nad hwn fyddai'r strwythur mwyaf priodol.

Yn arolwg MORI/ERM ar ran Postcomm gofynnwyd i gwsmeriaid pa wasanaethau y dymument eu gweld yn y dyfodol.

Tabl 10 Gwasnaethau y dywedodd trigolion y byddent yn eu defnyddio			
	Gwledig %	Trefol difreintiedig %	SB wedi cau % *
Peiriannau twll-yn-y-wal	60	50	60
Gwybodaeth teithio (amserlenni bws/trên)	42	35	46
Casglu parseli na chafodd eu danfon	41	33	42
Gwerthu tocynnau (teithio / digwyddiadau lleol)	37	29	38
Talu'r treth cyngor	34	36	29
Cofrestru genedigaethau/marwolaethau/priodasau	26	24	27
Casglu presgripsiwn/gwybodaeth iechyd	26	22	29
Gwybodaeth am gyfleusterau / gwasanaethau lleol	25	20	24
Cyfrifon banc syml	25	22	23
Gwybodaeth swyddi / hyfforddiant	24	26	26
Rhoi gwybod am droseddau/eiddo coll/talu dirwyon	20	17	20
Ffurflenni llywodraeth ganolog a lleol/cyngor	19	15	15
Trefnu cyngor Canolfannau Cyngori	19	23	17
Gwybodaeth grantiau (addysg / tai)	15	16	15

Y rhyngrwyd	12	10	10
Cyflwyno ffurflenni treth /TAW	11	5	15
Archebu / casglu llyfrau llyfrgell	11	10	12
Cyfrifon banc syml eraill	10	6	10
Cynnyrch busoddiadau / pensiynau	10	8	11
Siopa ar y rhyngrwyd a chasglu nwyddau	9	7	10
Cyfrifon busnes (nid girobank)	5	2	2
Ffynhonnell: adroddiad Postcomm 2001 / arolwg MORI/ERM			

* arolwg a gynhaliwyd mewn cymunedau lle caewyd swydddfa bost

Argymhellion

- ⇒ Dylid gweithredu 'Your Guide' yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid o leiaf sicrhau ymrwymiad i egwyddorion 'Your Guide'. Dylid cymryd camau penodol i sicrhau bod Cymru yn manteisio i'r eithaf ar y system 'canolfan wybodaeth' gyffredinol. Gellid sicrhau hyn drwy ddwyn yr holl asiantaethau cyhoeddus at ei gilydd (fel ELWa, awdurdodau lleol a'r Cynulliad) gyda chwmnïau wrth gynllunio a gweithredu 'Your Guide'.
- ⇒ Dylai'r Cynulliad ystyried ychwanegu at y cynllun grant cyfalaf a dylai'r broses o gymeradwyo grantiau fod yn ddibynnol ar fodloni gofynion y mae'r adroddiad hwn yn eu cymeradwyo ar gyfer mabwysiadu dulliau strategol o ddatblygu a chynnal gwasanaethau adwerthu gwledig.
- ⇒ Er mwyn gweithredu dulliau strategol o leoli gwasanaethau swyddfeydd post yng Nghymru yn y dyfodol, dylid archwilio'r posibilrwydd o fabwysiadu agwedd wahanol tuag at gau swyddfeydd post yng Nghymru. Rhaid seilio hyn ar system a fyddai'n caniatáu cau swyddfeydd post pe bai hynny'n rhan o gynllun strategol i sicrhau bod gwasanaethau post ar gael mewn ardal ddaearyddol benodol.
- ⇒ Dylai'r Cynulliad annog pob asiantaeth a chorff sydd â rhan yn y gwaith o gynnal cymunedau gwledig (gan gynnwys awdurdodau lleol, cyngorau cymuned, Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa, yr undebau amaethyddol a'r sectorau preifat a chyhoeddus) i gydweithio â Consignia drwy'r Cyngorwyr Trosglwyddo Gwledig. Nod y cyswllt hwn fyddai parhau i chwilio am ddulliau arloesol o sicrhau gwasanaethau swyddfeydd post gwledig yn y dyfodol.
- ⇒ Dylai bod gan bostfeistri a meistresi hawl i fanteisio ar y cynnig yn ymwneud ag Entrepreneuriaid Cymunedol a nodir mewn argymhelliad diweddarach.

4. Arolwg o Gynghorau Cymuned

- 4.1 Fel rhan o'r astudiaeth cynhaliwyd arolwg o 600 o Gynghorau Cymuned yng Nghymru. Roedd y Cynghorau hyn mewn ardaloedd awdurdodau lleol sy'n cynnwys ardaloedd gwledig yn bennaf.

Nid oedd digon o adnoddau i geisio gwybodaeth wedyn gan y rhai nad atebodd. Er hyn, cafwyd ymateb gan 143 o Gynghorau Cymuned, sef 24% o'r cyfanswm yr anfonwyd holiadur atynt.

Tabl 11 Nifer yr holiaduron a ddychwelwyd yn ôl maint poblogaeth y Cyngor Cymuned.

Poblogaeth	Nifer yr holiaduron a ddychwelwyd	% o'r cyfanswm
0 – 500	24	16.8
501 – 1000	50	35
1001 – 2000	30	21
2001 - 3000	11	7.7
3001 +	28	19.5

- 4.2 Roedd nifer helaeth o'r holiaduron a ddychwelwyd gan Gynghorau a oedd yn cynrychioli poblogaeth o dros 3000 o drefi mawr mewn ardaloedd gwledig megis Rhuthun, Blaenau Ffestiniog a Phorthaethwy.

Gofynnwyd i'r Cynghorau a fu i wasanaethau adwerthu (siopau/modurdai/tafarndai/swyddfeydd post) roi'r gorau i fasnachu yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Nodir eu hymateb yn nhabl 12 isod.

Tabl 12 Cynghorau cymuned a nododd y caewyd gwasanaeth adwerthu yn ystod y pum mlynedd diwethaf

Poblogaeth	Do		Naddo		>5 ml	
	Nifer	Grŵp yn ôl % o'r boblogaeth	Nifer	Grŵp yn ôl % o'r boblogaeth	Nifer	Grŵp yn ôl % o'r boblogaeth
0 – 500	11	46	9	37.5	4	16.5
501 – 1000	34	68	16	32	-	-
1001 – 2000	19	63	11	37	-	-
2001 – 3000	8	73	2	18	1	9
3001 +	19	68	9	32	-	-
Y cwbl	91	64	47	33	5	3

- 4.3 Gofynnwyd i'r Cynghorau ddweud pa fath o unedau adwerthu a oedd wedi cau a phryd. Ymddangosodd tuedd amlwg. Lleiaf i gyd oedd poblogaeth yr ardal a gynrychiolwyd gan y Cyngor, hynaf i gyd oedd yr unedau adwerthu a gaewyd a'r mwyaf tebygol ydoedd i'r gwasanaethau a gynigiwyd ganddynt fod yn wasanaeth sylfaenol megis swyddfa bost neu siop pob dim. Roedd y Cynghorau yn yr ardaloedd mwy poblog yn nodi mai siopau mwy arbenigol a gaewyd e.e. siopau cig, dillad, optegwyr neu siopau papur newydd.

4.4 Gofynnwyd i'r Cynghorau hefyd ddisgrifio sut yr aethant ati i ymateb i'r penderfyniad i gau'r gwasanaethau adwerthu hyn. Nodwyd amrywiaeth o ymatebion a dyma oedd y rhai mwyaf cyffredin o bell ffordd:

- Cysylltu ag asiantaethau eraill
- Pwyso am ostyngiad yn eu trethi
- Ceisio sicrhau mwy o gefnogaeth leol o ran defnyddio'r gwasanaeth adwerthu
- Ceisio cefnogaeth yr AS/AC lleol
- Sefydlu grwpiau gweithredu / trefnu cyfarfodydd cyhoeddus

4.5 Gofynnwyd i'r Cynghorau a oeddynt wedi trafod/ystyried dyfodol y gwasanaethau adwerthu'n benodol. Dangosir yr atebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn yn Nhabl 13 isod.

	Wedi trafod y mater		Heb drafod y mater		Dim ymateb	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Y cwbl	53	37	84	59	6	4

Efallai nad oes disgwyl i holiadur syml a anfonwyd drwy'r post fel hyn ddarparu gwybodaeth o safon uchel y gellir dod i gasgliadau manwl gywir yn eu cylch. Fodd bynnag, mae canran y Cynghorau Cymuned, 59%, a nododd nad oeddynt wedi trafod nac ystyried dyfodol gwasanaethau adwerthu yn eu hardaloedd yn benodol, yn codi rhai cwestiynau pwysig. Yn gyntaf, dylid ymgymryd â gwaith manylach i bennu pa rôl y mae Cynghorau Cymuned yn credu y dylai fod ganddynt. Yn ail, dylid rhoi arweiniad pendant i Gynghorau Cymuned ynghylch pa rôl y gallant ac y dylent ymgymryd â hi, ac o ganlyniad i hyn, dylid ymdrin â gallu Cynghorau Cymuned i ymgymryd â gweithgareddau penodol. Mae'r angen i wneud hyn wedi'i danlinellu gan y rôl y mae Cynghorau Cymuned yn aml yn ymgymryd â hi mewn ymgyrchoedd i gadw'r gwasanaethau adwerthu gwledig unwaith y daw'n hysbys eu bod ar fin dod i ben.

4.6 Wrth ddadansoddi'r atebion ymhellach i ddangos y berthynas rhwng y rhieni sydd wedi/heb drafod y mater, a'r rheini sydd wedi/heb weld gwasanaeth adwerthu'n cau yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae cydberthynas yn dod i'r amlwg, fel y gellid disgwyl, rhwng gweld gwasanaeth yn dod i ben ac ystyried dyfodol gwasanaethau adwerthu. Roedd 77% o'r rhai a nododd eu bod wedi trafod y mater hefyd yn nodi bod gwasanaeth adwerthu wedi dod i ben yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Ar y llaw arall, o'r rheini a nododd nad oeddynt wedi trafod y mater, dywedodd 55% hefyd eu bod wedi gweld gwasanaeth adwerthu yn dod i ben. Mae hyn yn cadarnhau ymhellach yr angen i nodi cyfrifoldebau Cynghorau Cymuned yn glir mewn perthynas â chynllunio dyfodol gwasanaethau adwerthu gwledig.

	Wedi trafod y mater		Heb drafod y mater	
	Nifer	%	Nifer	%
Nodwyd bod gwasanaeth wedi dod i ben	41	77	46	55
Nodwyd na ddaeth gwasanaeth i ben	12	23	38	45

4.7 Ar yr ochr gadarnhaol, mae gan y Cynghorau Cymuned berthynas uniongyrchol â'r cymunedau a gynrychiolant a bu ganddynt ran allweddol mewn cynlluniau llwyddiannus yn y gorffennol. Mae llawer o unigolion sy'n weithgar gyda chynlluniau i achub neu i ailsefydlu gwasanaeth adwerthu hefyd yn aelodau o Gynghorau Cymuned.

Ar yr ochr negyddol, cyfyngir ar allu Cynghorau Cymuned i gymryd rhan ymarferol yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaethau. Fe'u cyfyngir ymhellach eto gan lefel yr adnoddau sydd ar gael iddynt.

Argymhellion

⇒ **Dylid ystyried nodi swyddogaeth bendant i Gynghorau Cymuned a grwpiau cymunedol yn y gwaith o gynllunio ar gyfer dyfodol gwasanaethau adwerthu gwledig yng nghydestun strategaethau cyffredinol mewn ardal awdurdod lleol. Msae'n amlwg y byddai angen i awdurdodau lleol ac asiantaethau perthnasol eraill gefnogi unrhyw rôl newydd.**

⇒ **Gallai'r rôl hon gynnwys:**

- **Cyfrifoldeb am fesur barn a mesur cefnogaeth leol i wasanaethau adwerthu penodol**
- **Gweithredu fel canolbwynt ar gyfer unrhyw gynllun cymunedol**
- **Mabwysiadu dull strategol tuag at ddatblygu clwstwr o wasanaethau fel yr argymhellir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.**

⇒ **Er mwyn i Gynghorau Cymuned a grwpiau cymunedol ddatblygu eu rôl yn y modd hwn, byddai angen ystyried ac ymdrin â lefel yr adnoddau a'r gallu sy'n angenrheidiol.**

5 Dyfodol y gwasanaethau adwerthu gwledig (ar wahân i wasanaethau post)

5.1 Mae amlwg ohono'i hun bod unedau adwerthu gwledig ar wahân i swyddfeydd post hefyd o dan gryn bwysau. Mae'r rhesymau sylfaenol dros hyn yn eithaf amlwg. Mae un nodwedd yn gyffredin iddynt i gyd, sef prinder pobl. Yn syml iawn, prinder pobl sy'n croesi rhiniog uned adwerthu yn hytrach na nifer y bobl sy'n prynu nwyddau neu'r nifer o eitemau a brynant. Unwaith eto, mae rhesymau amlwg dros hyn ac am y dirywiad parhaus. Maent yn cynnwys:

- Diboblogi
- Gostyngiad mewn incwm i'w wario
- Effaith cyfleoedd siopa a geir mewn archfarchnadoedd
 - Cost y nwyddau
 - Amrywiaeth y nwyddau
 - Ansawdd y nwyddau
 - Amgylchedd siopa
 - Hwylustod

Y mae hefyd yn bwysig iawn deall y cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth y fasnach adwerthu. Fel sector y mae'n arbennig o anwadal a gall ffactorau allanol effeithio'n fawr arno, yn enwedig grym hysbysebu a hyrwyddo sy'n dylanwadu ar y cwsmer o ran dewisiadau prynu a nodweddion penodol y nwyddau, fel y pris a'r gwneuthuriad. Y mae'n sector cystadleuol tu hwnt ac mae Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn cael effaith gyddol arno.

5.2 Mae gwybodaeth, profiad ac arbenigedd ym maes adwerthu wedi'u crynhoi yn nwylo ychydig, ac os oes modd cael gafael arnynt ar y farchnad gynghori agored maent yn ddrud iawn i'w prynu. Hyd yn oed pan fo modd i'r sector cyhoeddus neu adwerthwr annibynnol gael cyngor arbenigol, mae un ffactor hanfodol ar goll yn aml – profiad cyfunol a chyfamserol, a enillwyd dros gyfnod maith, o'r amgylchiadau penodol neu gyffredinol y gellid disgwyl i wasanaeth adwerthu arbennig eu hwynebu yn sgil amgylchiadau daearyddol, cymdeithasol neu economaidd. Mae'r gan y cwmnïau mawr y profiad a'r arbenigedd hwn. Fe'u hystyrir gan amlaf yn fasnachol sensitif, ac fe'u defnyddir fel arf i sicrhau mantais gystadleuol.

O ganlyniad, mae cyngor adwerthu arbenigol o safon yn brin yn y sector cyhoeddus, ac mae'r gefnogaeth y cafwyd hyd iddi'n gyfyngedig, a dim ond rhyw lefel o arbenigedd sydd ar gael. Ni fwriedir difrio natur y gefnogaeth a gynigir ond dyma'n anochel sy'n deillio o'r amgylchiadau a amlinellir uchod.

5.3 Un ffactor tyngedfennol yn nyfodol gwasanaethau adwerthu gwledig yw eu rôl yn y gymuned sy'n ychwanegol i'w gweithgareddau masnachol.

Cyfeirir at y rôl ychwanegol hon ar lafar ac mewn dadansoddiad goddrychol, er y cynhaliwyd nifer o arolygon a gynigiodd ystadegau pendant, megis yr arolwg y crybwyllwyd eisoes gan Postcomm ERM/MORI. Rôl lle mae'r uned adwerthu, neu ei bodolaeth o leiaf, yn cael ei hystyried fel canolbwynt y gymuned a'i hunaniaeth gymunedol.

Nid yw'n anodd darganfod y rhesymau dros hyn. Mae nifer o gymunedau gwledig bychain dros y blynyddoedd wedi colli eu canolbwynt traddodiadol a roddodd iddynt eu hunaniaeth neu eu gweithgarwch cymunedol – ysgol y pentref, neuadd y pentref neu'r seremoni grefyddol wythnosol. Dan yr amgylchiadau hyn mae'n hawdd deall pam mae'r swyddfa bost neu'r siop mor ganolog i hunaniaeth y gymuned. Mae perchennog y siop neu'r postfeistr neu feistres yr un mor bwysig yn yr amgylchiadau hyn. Unwaith eto, fe'u hystyriar fel canolbwynt y gymuned. Mae'n anodd, ar y naill law, mesur pwysigrwydd eu rôl ac ar y llaw arall, mae'n hawdd ei danbriso.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig nifer o argymhellion sy'n delio'n benodol â rôl yr unigolion allweddol hyn a'r gefnogaeth y dylent, o bosibl, ei chael.

5.4 Mapio gwasanaethau gwledig

Wrth ymgymryd â'r astudiaeth hon daeth yn amlwg yn fuan fod prinder gwybodaeth fanwl yng nghyswllt lefel a lleoliad daearyddol gwasanaethau adwerthu, ac yn wir, unrhyw wasanaethau eraill, yng nghefn gwlad Cymru. Yr oedd y tu hwnt i'r adnoddau a oedd ar gael ar gyfer yr astudiaeth i hyd yn oed ymdrechu i fynd i'r afael â'r mater hwn. Byddai modd dechrau llunio 'map' at y diben hwn drwy asiantaethau a chyrrff megis Consignia neu'r Awdurdodau lechyd neu'r Gwasanaeth Heddlu neu'r cwmnïau siopau cadwyn yn y sector preifat, ond ni fyddai'r casgliadau terfynol yn gwbl gynhwysfawr.

5.5 Yn Lloegr, mae'r darlun yn wahanol. Mae'r Countryside Agency, y corff statudol yn Lloegr sy'n gweithio :

- i gadw a chyfoethogi cefn gwlad Lloegr
- i ehangu cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd i'r bobl sy'n byw yno
- i gynorthwyo pawb, lle bynnag y maent yn byw ac o ba gefndir bynnag, i fwynhau cefn gwlad ac i rannu'r trysor gwerthfawr cenedlaethol hwn

wedi cynnal arolygon o wasanaethau gwledig yng Lloegr dros nifer o flynyddoedd, a arweiniodd at arolwg 2000; yr arolwg mwyaf soffistigedig a manwl hyd yn hyn. Yn Lloegr, y mae'n bosibl yn awr

gweld map sy'n nodi ble mae amrywiaeth eang o wasanaethau gwledig gan gynnwys:

- swyddfeydd post
- banciau a chymdeithasau adeiladu
- peiriannau twll-yn-y-wal
- siopau cyffredinol, siopau pentref ac archfarchnadoedd
- gorsafoedd petrol
- tafarndai
- ysgolion
- neuaddau pentref a chanolfannau cymunedol
- ysbytai
- meddygfeydd a chanolfannau iechyd

Mae'r arolwg ei hun yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth a gafwyd drwy edrych ar ddata'n gysylltiedig â chod post, ac sy'n galluogi'r Countryside Agency i roi data sydd 100% yn gywir ar gyfer gwasanaethau penodol. Wrth wraidd hyn oll y mae holiadur plwyf a ddychwelwyd yn arolwg 2000 gan 67% o'r rhai a'i cafodd.

Yna mae'r Countryside Agency yn cymhwyso technoleg system wybodaeth ddaearyddol (GIS) i ganlyniadau'r arolwg plwyf a'r wybodaeth cod post i asesu'n fanwl pa wasanaethau sydd o fewn cyrraedd aneddiadau a chartrefi unigol. Mae'n arwyddocaol bod y cwmnïau siopau cadwyn yn defnyddio GIS fel elfen allweddol (gweler isod) wrth wneud penderfyniadau masnachol ynghylch lleoliad siopau pob dim mewn ardaloedd gwledig.

- 5.6 Nid yw'r adroddiad hwn yn bwriadu ymdrin â'r ddadl ynghylch sefydlu un asiantaeth benodol yng Nghymru i gynnal cefn gwlad Cymru yn ei gyfanrwydd. Mae lefel y wybodaeth sydd ar gael am leoliad gwasanaethau yng nghefn gwlad Lloegr, fodd bynnag, yn sylweddol uwch na'r hyn sydd ar gael yng Nghymru. Os mabwysiedir dull strategol i gefnogi gwasanaethau gwledig yng Nghymru yn y dyfodol, yn unol â'r hyn y mae'r adroddiad hwn yn ei argymhell, yna un o ofynion sylfaenol dull o'r fath yw gwybodaeth fanwl a chywir.

Argymhelliad

⇒ **Dylai'r Cynulliad gynnal arolygon cynhwysfawr bob dwy flynedd, tebyg i arolygon yr Countryside Agency, gyda'r nod o gwblhau'r adroddiad arolwg cyntaf erbyn diwedd mis Mawrth 2004.**

5.7 Partneriaeth â'r sector preifat

Mae un peth yn gyffredin i'r siop sy'n cael ei chadw gan gwpl sydd wedi ymddeol i gefn gwlad Cymru i ddilyn ffordd arbennig o fyw, y cwpl ifanc gyda phlant sy'n denantiaid tafarn wledig, neu'r bragdy sy'n berchen ar

y dafarn, neu'r adwerthwr sydd wedi llunio contract â chyfanwerthwr mawr, neu'r cyfanwerthwr hwnnw sydd â chadwyn o siopau, maent i gyd yn rhan annatod o'r sector preifat.

Maent hefyd, a byddant bob amser, yn llawer mwy niferus na'r unedau yn y sector adwerthu sy'n eiddo i gymuned, er nad oes unrhyw reswm arbennig pam na ellir ystyried unedau adwerthu sy'n eiddo i gymuned, at sawl diben, fel rhan o'r sector preifat gan fod yr un pwysau a'r un gofynion arnynt o safbwynt masnachu.

5.8 Un peth arall sydd yr un mor amlwg yw na all y sector preifat fforddio rhoi'r gorau i adwerthu mewn ardaloedd gwledig. Y cwestiwn y mae'n rhaid i'r sector preifat ei ystyried yw sut mae modd sicrhau bod y llinell ariannol isaf yn caniatáu i adwerthu barhau yn y cymunedau gwledig ar ryw ffurf neu'i gilydd. Er gwaethaf y cyfyngiadau masnachol ar y sector preifat maent yn sylweddoli fwyfwy bod ganddynt gyfrifoldebau cymdeithasol, bod gan eu gwasanaeth ran yn y gymuned a bod manteision eraill cysylltiedig. Mae hyn i'w weld yn fwy amlwg fyth pan fo'r sector preifat yn gweld cyfle i ddatblygu ei 'gymuned', ei gyfrifoldeb cymdeithasol, a'i rôl, tra bo, ar yr un pryd, yn cryfhau ei safle masnachu.

5.9 Gan amlaf, mae'r cynlluniau y mae'r sector preifat yn ymgymryd â nhw i ymdrin â'r her sy'n eu hwynebu o safbwynt masnachu yn y cymunedau gwledig yn rhannu'n ddau gategori:

- y rheini sy'n ymwneud â'r adeilad
- a'r rheini sy'n gweithio gyda'r adwerthwyr yn unigol ac ar y cyd

Yn ymwneud â'r adeilad: Mae'r rhain yn amrywio o ailgynllunio siopau'n gyfan gwbl megis 'siop y mileniwm' Spar, i dafarndai sy'n gwneud defnydd mwy effeithiol o'r lle sydd ganddynt eisoes. Maent yn ddieithriad yn cynnwys defnyddio rhannau o'r adeilad ar gyfer gweithgaredd newydd nad yw'n ymwneud ag adwerthu, megis hysbysfwrdd cymunedol 'siop y mileniwm' Spar neu benderfyniad, megis hwnnw a wnaed gan Unique Pubs (cadwyn o dafarndai sy'n eiddo i Normura) i annog gweithgareddau cymunedol yn y dafarn.

Yn ymwneud â phobl: Mae cwmnïau siopau cadwyn yn sylweddoli fwyfwy fod y bobl sy'n rhedeg eu hunedau adwerthu yn gaffaeliad gwerthfawr iddynt. Mae'n anochel y bydd rhai ohonynt yn fwy tebygol nag eraill o ddatblygu syniadau newydd i gynyddu'r nifer sy'n croesi'r rhiniog. Drwy gyfrwng cynlluniau mentora a chefnogaeth gan eraill yn yr un sefyllfa mae modd cynorthwyo'r rhain gyda'u hymdrechion ac mae modd annog eraill, nad ydynt, am ba reswm bynnag, mor arloesol nac entrepreneuriaidd, i symud i'r cyfeiriad hwnnw wrth weld syniadau'n cael eu gweithredu ac, yn bwysicach na dim, yn arwain at fanteision masnachol.

Dwy enghraifft o gwmnïau siopau cadwyn yn y sector preifat sy'n ymdrechu ym y maes hwn yw Sainsbury's a Spar. Ym 1998 lansiodd Sainsbury's, y cwmni archfarchnad mawr, gynllun i gefnogi unedau adwerthu gwledig. Mae eu cynllun SAVE (Sainsbury's Assisting Village Enterprises) wedi cysylltu Sainsbury's â Swyddfa'r Post a Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri er mwyn cynyddu grym prynu swyddfeydd post a siopau pentref. Mae'r cynllun yn caniatáu i siopau pentref gadw nwyddau Sainsbury's sy'n aml ar gael yn rhatach ganddynt hwy nag yn storfeydd y cyfanwerthwyr. Mae Sainsbury's yn ceisio cynyddu nifer y siopau pentref a swyddfeydd post sy'n gallu prynu eu nwyddau i fwy na 600 erbyn diwedd 2002.

Roedd gan Brif Weithredwr Grŵp Sainsbury's hyn i'w ddweud am y cynllun:

'The viability of the rural economy is a major concern for Sainsbury's.

'We are active within rural communities as a large purchaser and we also want to be involved in maintaining the services available to those communities.'

- 5.10 Spar yw adwerthwr mwyaf y byd o ran nifer o unedau adwerthu. Yn ôl arolygon Spar ei hun mae 96% yn adnabod enw'r brand ac mae 74% o'r boblogaeth yn byw o fewn tri chwarter milltir i siop Spar. Yn arwyddocaol mae 55% o holl gwsmeriaid Spar yn byw o fewn chwarter milltir i'r siop. Gan Spar mae'r gadwyn siopau diodydd fwyaf yn y DG ac mae swyddfa bost yn awr mewn 400 o'i siopau.

Mae strwythur Spar yn ddiddorol yng nghyd-destun y berthynas rhwng adwerthwyr unigol a'r brand. I bob diben, cwmni marchnata cydweithredol yw Spar o ran cyfundrefn sy'n cynnwys adwerthwyr annibynnol a chwe chyfanwerthwr ledled y DG.

Mae adwerthwyr yn talu tâl Gild a'r Gildiau hyn, yn seiliedig ar faint yr ardal y mae pob cyfanwerthwr yn gweithredu ynddi, sy'n penderfynu'r adnoddau marchnata a ddefnyddir.

- 5.11 Mae dau fath o gontract rhwng Spar ac adwerthwyr unigol. Mae'r cyntaf yn wirfoddol ac yn anffurfiol ac yn yr amgylchiadau hyn, nid fydd Spar, drwy'r cyfanwerthwr, yn buddsoddi llawer. Ar y llaw arall, bydd yn buddsoddi'n eithaf sylweddol mewn siop weithiau ar sail contract ffurfiol. Bydd y buddsoddiad hwn yn seiliedig ar farn y cyfanwerthwr ar hyfywedd ariannol y siop ac ystyrir pob achos ar wahân. Mae Spar, yn yr un modd â gweddill y cwmnïau siopau cadwyn, yn defnyddio system modelu soffistigedig i benderfynu a yw siop yn hyfyw. Mae'n dibynnu'n drwm ar GIS (gweler uchod), mae'n cynnwys 17 ffactor dy'n pennu beth yw'r trosiant posibl ac, yn dyngedfennol, ystyrir profiad siopau eraill mewn ardaloedd tebyg. Nid yw'r profiad hwn, wrth gwrs, byth yn sefydlog, a chan hynny, gall gymryd i ystyriaeth newidiadau demograffig a thueddiadau prynu cwsmeriaid.

O ran yr adwerthwr unigol mae'r manteision yn ymddangos yn debyg i'r rheini sy'n gysylltiedig ag unrhyw gwmni adwerthu mawr arall megis y grŵp Cydweithredol, Londis neu Mace:

- Spar sy'n gyfrifol am farchnata gan ryddhau'r siopwr i gynnal ei berthynas â staff a chwsmeriaid.
- Mae'r dull ariannu, drwy'r cyfanwerthwr, yn aml yn ystyried y sefyllfa hirdymor sy'n golygu y gellir cymryd mwy o ystyriaeth o lefelau trosiant newidiol.
- Mae cefnogaeth a chynngor adwerthu soffistigedig ar gael i adwerthwyr unigol.

- 5.12 Mae cyfanwerthwyr Spar, yn yr un modd â'r cwmnïau siopau cadwyn eraill, yn hybu'r syniad o ddefnyddio cynnyrch lleol. Y rhesymeg fasnachol syml sydd wrth wraidd hyn yw bod pobl leol yn hoffi'r syniad o brynu cynnyrch lleol yn enwedig os yw'n ffres, a thrwy brynu'n lleol atgyfnerthir safle'r siop yn y gymuned leol.

Wrth baratoi'r adroddiad hwn, cynhaliwyd trafodaethau â dirprwy Reolwr Gyfarwyddwr AF Blakemore and Son, sef cyfanwerthwr Spar ar gyfer Canolbarth a Gogledd Cymru. Tynnodd sylw at agwedd bwysig arall ar brynu'n lleol, sef bod modd cyflwyno cynnyrch newydd i farchnad ehangach gan ddefnyddio'r siop leol fel man cychwyn. Mae'r union broses hon yn digwydd yn awr gyda chynhyrchedd bwyd yng Ngogledd Cymru sy'n cyflenwi'r siop Spar leol gyda chynnyrch o safon ac o ganlyniad mae'r cyfanwerthwr yn gweithio â'r cynhyrchedd i gynyddu ei gynnyrch ac i'w ddosbarthu ar hyd a lled ardal y cyfanwerthwr.

- 5.13 Mae'r ffocws lleol neu gymunedol hwn yn thema gref a welir dro ar ôl tro yn yr holl gwmnïau siopau cadwyn.

O safbwynt Spar, mae hyn fwyaf amlwg yn ei ymgyrch 'prynwch yn lleol'. Mae hyn eto'n gweithio ar ddwy lefel, fel cyfrwng marchnata ar gyfer y brand ac fel modd i gefnogi adwerthwr unigol yn uniongyrchol. Fel y nodwyd eisoes, mae llawer o fantais fasnachol y cwmnïau siopau cadwyn fel Spar yn seiliedig ar eu profiad a'u harbenigedd. Mae casglu gwybodaeth am gwsmeriaid yn rhan dyngedfennol o'r broses hon. Fel rhan o'i ymgyrch 'prynwch yn lleol' mae Spar yn cynhyrchu holiaduron sy'n cyfrannu at wybodaeth am ddymuniadau a gofynion cwsmeriaid. Anogir adwerthwyr i sicrhau bod cwsmeriaid yn llenwi'r holiaduron drwy warantu y cânt sylw yn y wasg leol (yn sgil gwaith adrannau marchnata canolog Spar) os llenwir 20 holiadur.

- 5.14 Wedi dweud hyn oll, penderfyniad masnachol yw'r penderfyniad i fuddsoddi mewn unedau adwerthu yn y pen draw. Er mwyn gwella siawns y siop i barhau neu i gynyddu trosiant, mae Spar wedi datblygu amrywiaeth o weithgareddau sy'n seiliedig ar adeiladau ac ar bobl:

- manau codi nwyddau a brynir ar y rhyngwlad
- cynllun siop y Mileniwm sy'n cynnwys lle ar gyfer gwybodaeth gymunedol
- teithiau astudio ar gyfer adwerthwyr
- cynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol i adwerthwyr.

I gael syniad o faint o bobl y mae ar siop Spar eu hangen i gerdded drwy'r drws, gwerth basged siopa Spar ar gyfartaledd yw £4.

Mae manteision amlwg i gysylltu unedau adwerthu annibynnol â'r cwmnïau siopau cadwyn. Ffactor allweddol yn hyn o beth yw isafswm lefelau galwadau (danfon) y cyfanwerthwr ac a yw'r alwad yn rhan o lwybr danfon hwylus. Mae costau ffiniol galwad yn isel os yw'r lori'n mynd heibio i'r siop ar ei ffordd i fan danfon arall.

- 5.15 Wrth edrych yn strategol ar leoliad unedau adwerthu yng nghefn gwlad Cymru mae'n bosibl y byddai'n ddoeth nid yn unig edrych ar glystyru gwasanaethau o dan un to, a drafodir yn ddiweddarach, ond hefyd ar glystyru o fewn ardal neu ar hyd llwybrau danfon. Efallai y gallai hynny olygu trefnu man danfon canolog a rhywle arbennig i gadw nwyddau arbennig, fel cynnyrch ffres, sy'n ddrud i'w gadw. Gallai'r lle hwn wedyn fod yn ganolbwynt ar gyfer grŵp o siopau adwerthu bychain gwledig. Gallai hefyd gynnwys y sector preifat yn y gwaith o sicrhau parhad siopau bychain drwy ddarparu arian i brynu adeiladau sy'n eiddo casgliadol i sefydliad sydd â ffocws cymunedol cryf, sydd wedyn yn llunio cytundeb cyflenwi â chyfanwerthwr ar gyfer y siopau i gyd yn hytrach nag un yn unig. Yn y modd hwn, efallai y bydd modd sicrhau parhad siopau sydd mewn perygl o gau ac elwa ar y manteision sydd ynghlwm wrth y cysylltiad â chwmni siopau cadwyn.
- 5.16 Cynigiwn y dylid ymdrechu i weithio'n agosach â'r sector preifat. Dylai hyn gynnwys cymryd camau ymarferol i ystyried rhoi cymorth cyhoeddus i adwerthwyr unigol fanteisio ar gynlluniau sy'n cael eu llywio gan y sector preifat. Tasg anoddach, ond tasg y credwn y dylid mynd i'r afael â hi, yw'r ymgais i gydgyssylltu cynlluniau a luniwyd ar gyfer y sector preifat â chynlluniau sydd ar y gweill ar gyfer y sector cyhoeddus.

Mae'r adwerthwyr mawr yn y sector preifat sy'n gweithredu yn economi gwledig Prydain wrthi'n datblygu cynlluniau i ymdrin â'r her sy'n eu hwynebu oherwydd yr angen i gynyddu'r nifer sy'n croesi rhiniog siopau yn yr ardaloedd gwledig.

Yn achos tafarndai, mae'r cynlluniau hyn yn canolbwyntio naill ai ar yr angen i sicrhau'r incwm mwyaf posibl i'r tafarnwr er mwyn denu pobl i fod yn denantiaid neu'n rheolwyr tafarndai gwledig neu ar sicrhau bod rhywbeth mor sylfaenol â dosbarthu cynnyrch mewn wagenni yn

parhau'n ymarferol yn economaidd. Yr un yw'r broblem o safbwynt y cwmnïau siopau cadwyn fel Spar fel yr amlinellwyd uchod. Mae angen sefydlu rhwydwaith o fannau danfon i sicrhau bod danfon nwyddau'n gost-effeithiol.

Argymhelliad

⇒ **Dylid sefydlu grŵp cyngori, gyda'r aelodau'n cynrychioli'r sector adwerthu preifat, gan gynnwys swyddfa'r post. Dylai ei gyfrifoldebau gynnwys y canlynol:**

- **Ystyried yr effaith ehangach pan fo uned adwerthu'n cymryd camau amrywiol i gynyddu'r nifer sy'n croesi'r rhiniog, yng nghyd-destun yr effaith bosibl ar wasanaethau eraill yn yr ardal gyfagos ac ar y gymuned yn gyffredinol.**
- **Trefniant rhwng gwahanol ddarparwyr gwasanaeth yn y sector preifat i geisio gwella'r sefyllfa.**

⇒ **Pe bai grŵp o'r fath yn cael ei sefydlu, yna byddai angen ei gysylltu'n agos iawn â'r strwythur presennol sydd yng Nghymru, ac unrhyw strwythur newydd a ddatblygir, i gynnal adwerthu gwledig.**

⇒ **Dylai'r Cynulliad ystyried ariannu cynllun gyda'r nodweddion a ganlyn:**

- **Prynu unedau adwerthu a fyddai, fel arall, yn rhoi'r gorau i fasnachu.**
- **Unedau adwerthu'n eiddo i gyfundrefnau sydd â chanolbwynt cymunedol.**
- **Rhwydwaith o unedau adwerthu sydd â chontract â chwmni siopau cadwyn.**
- **Defnyddio unrhyw elw a wneir fel a ganlyn:**

- **Cyfrannu at brynu nwyddau yn y dyfodol.**
- **Buddsoddi yn y busnes.**
- **Buddsoddi yn y cymunedau y mae'r siopau'n eu gwasanaethu.**

⇒ **Fel cam cyntaf, y ffordd orau o wneud hyn fyddai ar ffurf cynllun arbrol gyda dau gynllun arbrol, o bosibl, mewn llyfudd strategol. Ni ddylid gweithredu'r syniad o glystyru fel ffordd o sicrhau cynaladwyedd unedau adwerthu gwledig oni bai fod modd dangos, yn sgil gwerthuso'r cynlluniau arbrol:**

- **y byddai'n arwain at rwydwaith o unedau adwerthu hunangynhaliol**

- **nad oes cynllun ar y gweill sy'n cael ei lywio gan y sector preifat.**

5.17 Mantais bwysicaf mabwysiadu dull cadarn sy'n cael ei ddylanwadu gan y sector preifat yw y dylai sicrhau cynlluniau sy'n cael eu llywio gan ystyriaethau masnachol lle bo hynny'n briodol ac yn gyraeddadwy, a chan hynny, byddai o gymorth mawr wrth ddynodi'r achosion hynny lle byddai'n well mabwysiadu dulliau eraill.

5.18 Camau i gynyddu'r nifer sy'n croesi'r rhiniog

Os dyma'r allwedd sy'n datgloi dyfodol y gwasanaethau adwerthu gwledig, yna beth yw'r camau penodol a fydd yn cyflawni'r nod hwn? Mae'r cynlluniau i gynyddu'r nifer sy'n croesi'r rhiniog yn weddol hysbys. Maent yn cynnwys:

- Technoleg gwybodaeth
 - Defnyddio adeiladau presennol yn y gymuned, nad ydynt o reidrwydd yn cynnig gwasanaeth adwerthu, i roi cyfle i'r cyhoedd ddefnyddio'r rhyngrwyd a chyfathrebu drwy gyfrwng e-bost. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd i siopa ar y rhyngrwyd.
- Man codi/danfon nwyddau
 - Defnyddio adeiladau presennol yn y gymuned (fel y nodir uchod) fel lle i godi neu ddanfon nwyddau a brynir ar y rhyngrwyd neu drwy gatalog dan amgylchiadau lle mae'n anodd sicrhau y bydd y sawl sydd i dderbyn y nwyddau gartref.
- Gweithgareddau amherthnasol
 - Defnyddio adeiladau presennol yn y gymuned (fel y nodir uchod) fel lle i gyfarfod neu i gymryd rhan mewn gweithgaredd hamdden. Mae tafarndai'n cael eu defnyddio'n gynyddol at y diben hwn.
- Gweithgarwch masnachu ar y cyd
 - Defnyddio uned adwerthu presennol megis siop neu dafarn er mwyn cynnig un neu ragor o wasanaethau adwerthu eraill, megis swyddfa bost.

Mae un thema gyffredin yn yr holl weithgareddau hyn; maent yn dod â gwasanaethau ynghyd o dan yr un to. 'Clystyru' yw'r enw a roddir ar hyn, ac 'unedau' neu 'weithrediadau tandem' lle mae uned yn cyfeirio at adeilad a gweithrediad yn cyfeirio at gyflwyno gwasanaethau.

5.19 Yr enghraifft y cyfeirir ato'n aml yw'r dafarn Wyddelig lle cynigir hefyd weithgarwch adwerthu. Gall tafarn yn lwerddon hefyd fod yn siop groser, siop nwyddau metel, siop gig neu'n swyddfa bost. Mae'r syniad

yn syml, mae'n gweithio ac mae'n dod yn fwy poblogaidd ym Mhrydain ac, yn wir, yng Nghymru.

Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, cyfeiriwyd at dwf yn y duedd i glystyru gwasanaethau gan gyfuno swyddfeydd post ag unedau adwerthu eraill.

Yn ogystal â hyn, mae diddordeb cynyddol a datblygiad mewn cyfleusterau sy'n eiddo i'r gymuned ac sy'n cael eu rheoli ganddi, ac sy'n cynnwys rhyw fath o weithgarwch adwerthu.

- 5.20 Mae'r Countryside Agency wedi astudio'r modd y cynigir gwasanaethau ar y cyd yn Lloegr, a chynhyrwyd adroddiadau ar y gwasanaethau eu hunain a'u cost. Mae'r adroddiadau'n canolbwyntio i raddau helaeth ar gynnig gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd, ond maent hefyd yn cynnwys rhywfaint o wasanaethau adwerthu ac mae eu casgliadau'r un mor berthnasol i wasanaethau adwerthu gwledig.

Roedd adroddiad yr Countryside Agency, 'The joint provision of services 2000' yn dilyn adroddiad tebyg a luniwyd ym 1997. Edrychodd y ddau adroddiad ar yr un astudiaethau achos mewn tair sir yn Lloegr, Norfolk, Swydd Nottingham a Cumbria. Dyma gasgliadau'r adroddiad:

- **Mae'r bobl sy'n cynnig y gwasanaethau'n dyngedfennol.** Rhaid i'r rheolwr lleol, y perchennog neu unrhyw unigolyn allweddol fod â nodweddion arbennig megis hyblygrwydd neu ddyfeisgarwch i redeg dau wasanaeth neu ragor. Mae hefyd angen elfen o 'berchnogaeth gymunedol', lle mae pobl yn teimlo'n rhan o weithrediad a pharhad y siop.
- **Mae polisïau ac agweddau rhanddeiliaid nad ydynt yn bobl leol,** megis bragdai, cwmnïau petrol, cwmnïau cyfanwerthu neu Swyddfa'r Post yn bwysig dros ben.
- **Mae gan nodweddion yr adeilad** oblygiadau tyngedfennol o ran llwyddiant a datblygiad dros gyfnod.
- **Nodir bod defnyddio TGCh (Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu) mewn ffordd ddychmygus ac ymarferol** yn un o nodweddion allweddol llwyddiant.
- **Nid oes modd ystyried uned tandem fel ynys.** Rhaid sylweddoli sut mae clystyru gwasanaethau mewn un adeilad ac mewn un lle yn effeithio ar wasanaethau a chymunedau eraill, a manylir ar hyn isod. Hefyd, mae'r un pwysau ar y clystyrau hyn ag sydd ar unedau adwerthu un pwrpas, ond bod y pwysau'n llai.

Mae'r adroddiad yn nodi pedair dadl o blaid clystyru gwasanaethau:

- Arbedion maint

- Synergedd
- Siopau un alwad
- Hyblygrwydd

5.21 Mewn adroddiad cyfochrog a oedd yn edrych ar gostau darparu ar y cyd, nodwyd casgliadau sydd llawn mor bwysig. Mae angen eu hystyried wrth edrych ar y mecanweithiau cefnogi y gellid eu datblygu er mwyn clystyru gwasanaethau adwerthu gwledig.

Yn yr adroddiad, wrth sôn am wasanaethau clwstwr, cyfeirir at y gwestai a'r gwesteiwr a nodwyd yr hyn sy'n amlwg, sef bod yn rhaid i'r syniad apelio ar y gwesteiwr a'r gwestai os yw am lwyddo.

O safbwynt y gwesteiwr, os oes gan ddarparwr gwasanaeth lleol adnoddau dros ben (lle, er enghraifft) mae'n aml yn fanteisiol iddo adael i ddarparwr gwasanaeth arall eu defnyddio. Mae cynnig dau wasanaeth fel hyn gan amlaf yn ddewis atyniadol i ganolfannau cymunedol etc. hefyd.

O safbwynt y gwestai:

- Y cyfrifoldeb sydd ynghlwm wrth ddarparu ar y cyd gan amlaf yw darparu gwasanaeth yn fwy lleol nag y byddai'n ariannol bosibl fel arall
- Gan amlaf, rhaid i'r gwasanaethau a ddarperir fod â chostau cyffredinol isel oherwydd poblogaeth fechan y dalgylch
- Mae gwasanaethau lleol a ddarperir ar y cyd gan amlaf (ond nid bob amser) yn rhatach na darpariaeth unigol gyfatebol, oherwydd y defnyddir adnoddau'n fwy effeithlon
- Gall darpariaeth symudol fod yn gost-effeithiol os rhoddir blaenoriaeth i gyflwyno isafswm lefel gwasanaeth, ond nid yw'n gost-effeithiol os bwriedir cynnig y gwasanaeth am ragor nag ychydig oriau bob wythnos.
- Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth lleol a ddarperir ar y cyd yn ychwanegol i'r ddarpariaeth ganolog sy'n bod eisoes. Y prif ddewis arall yw peidio â chael y gwasanaeth lleol o gwbl, gan ystyried a yw'r costau ychwanegol yn werth y manteision i'r boblogaeth leol ac a oes modd i'r darparwr gwasanaeth ei redeg.
- Mae'n bosibl hefyd i wasanaethau a ddarperir ar y cyd yn lleol ddisodli'r ddarpariaeth ganolog sy'n bod eisoes, os y'i gweithredir ar raddfa eang. Mewn achosion o'r fath, y prif ddewis arall yw cadw'r gwasanaeth cyfan yn ganolog a'r ystyriaeth ariannol sylfaenol yw'r costau cymharol.
- Nid yw'r costau cyfalaf gan amlaf yn ystyriaeth mor bwysig o safbwynt parhad y ddarpariaeth ar y cyd gan eu bod, yn nodweddiadol, yn dibynnu ar fodolaeth cronfa arian allanol.

5.22 Mae'n rhaid i'r gwestai a'r gwesteiwr ymdrin ag ystyriaethau ariannol gwahanol. O safbwynt y gwesteiwr, dim ond rhan fechan o'u gweithgarwch a'u costau cyffredinol yw rhoi lle i'r gwasanaeth gwadd. Mae'n apelio atynt yn ariannol os byddant yn gwneud dim mwy nag adennill eu costau.

I'r gwestai mae'r ddarpariaeth ar y cyd yn fater llawer mwy sylfaenol gan eu bod yn ffurfio'u costau yn eu cyfanrwydd. Mae apêl ariannol y cyd-ddarpariaeth yn dibynnu gan hynny ar ba mor hyfyw a chost effeithiol yw'r fenter.

Dyma'r hafaliad ariannol sylfaenol a nodir yn adroddiad y Countryside Agency mewn perthynas â'r gwesteiwr a'r gwestai:

Gweddill/diffyg ariannol clir y gwesteiwr yn cyfateb i'r incwm gan y darparwr gwasanaeth gwadd

llai y costau ychwanegol a ddaw yn sgil bod yn westeiwr

Costau clir gwasanaeth y gwestai yn cyfateb i'r taliadau a godir gan y gwesteiwr

ynghyd â chostau eraill sydd ynghlwm wrth gynnig y gwasanaeth
llai unrhyw incwm y mae'r gwasanaeth yn ei greu

5.23 Mae achos cryf o blaid clystyru gwasanaethau ac mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu y byddai cynnig gwasanaeth adwerthu yn fwy lleol nag y byddai fel arall, yn cael effaith gadarnhaol. Y mae'n duedd y dylid ei hannog a'i chefnogi, ond yn duedd, fodd bynnag, nad yw'n cael ei llywio'n gan y sector cyhoeddus yn unig. Yn wir, y gwrthwyneb yn bendant sy'n wir gydag amrywiaeth eang o adwerthwyr yn y sector preifat yn datblygu ac yn gweithredu cynlluniau i glystyru gwasanaethau. Gan hynny, os yw'r sector cyhoeddus i fod â rhan yn y broses o hybu a chefnogi'r clystyru dim ond drwy sicrhau ymrwymiad llawn y sector preifat y gall wneud hynny.

5.24 Er bod y dadleuon cryf o blaid clystyru gwasanaethau, mae angen deall goblygiadau llwyddiant unrhyw gynlluniau penodol gan ystyried eu heffaith yn llawn. Bydd unrhyw gynllun sy'n cynyddu'r nifer sy'n croesi rhiniog un uned adwerthu, pa un a'i yw hwnnw'n cynnig un neu ragor o wasanaethau, yn effeithio ar wasanaeth arall yn y pen draw. Dyma reol syml cystadleuaeth sydd wedi arwain at rai o'r problemau sy'n wynebu unedau adwerthu gwledig ar hyn o bryd. Wrth i archfarchnadoedd agor yn Aberystwyth, y Drenewydd neu Geredigion gan roi cynlluniau soffistiegedig ar y gweill i ddenu pobl, yna mae'n anochel y bydd yn cael effaith niweidiol ar nifer y bobl sy'n cael eu denu i lefydd eraill. Yr un yw'r effaith, ond nid i'r un graddau, pan fo uned adwerthu llai yn cyflwyno cynlluniau effeithiol i gynyddu'r nifer sy'n croesi'r rhiniog.

Mae'n arbennig o bwysig rhoi ystyriaeth lawn i'r agwedd niweidiol hon ar unrhyw gynllun llwyddiannus a ariennir gan y sector cyhoeddus i gynyddu'r nifer sy'n croesi'r rhiniog, yn ystod o broses o asesu a

chytuno i ddefnyddio arian cyhoeddus i gefnogi unrhyw gynllun penodol. Mae'n amlwg nad yw hwn yn fater sy'n ymwneud â'r sector preifat, ond wrth i'r sectorau preifat a chyhoeddus gydweithio fwyfwy yn y maes hwn, mae'n bosibl y daw'n fater y byddant yn gorfod ymwneud ag o, yn enwedig os bydd y sector cyhoeddus yn cyfrannu at gynlluniau sy'n cael eu llywio gan y sector preifat.

Argymhelliad

⇒ Dylid mabwysiadu dulliau strategol o ddatblygu'r duedd i glystyru gwasanaethau adwerthu ar sail y wybodaeth fanwl a geir yn yr adroddiad a argymhellwyd eisoes yn yr adroddiad hwn. Gallai'r canlynol lywio a rheoli'r dulliau strategol hyn :

- Awdurdod Datblygu Cymru
- Cynghorau Cymuned mwy Grymus
- Awdurdodau Lleol fel rhan o'u dyletswydd statudol i gynhyrchu cynlluniau cymunedol cyffredinol neu o ganlyniad i arweiniad cynllunio manwl sy'n galw am ddull gwahanol o ddatblygu cynlluniau yng nghefn gwlad.

⇒ Byddai'n rhaid i'r dull hwn gynnwys:

- Y sector preifat
- Y sector gwirfoddol a'r economi gymdeithasol ehangach
- Y sector cyhoeddus ehangach
- Asiantaethau allweddol eraill megis Swyddfa'r Post

Fel partneriaid cynllunio a darparwyr posibl

⇒ Dylid cynnig cymhelliad i'r sector preifat er mwyn iddynt gymryd rhan ymarferol yn y broses o glystyru gwasanaethau'n strategol drwy sicrhau bod arian cyfalaf ar gael i'w fuddsoddi i roi hwb i'r economi gwledig. Gellid cysylltu'r cymorth ariannol hwn yn uniongyrchol ag unrhyw arian ychwanegol a gynnigir yn sgil cynllun grant cyfalaf swyddfeydd post fel y nodwyd eisoes.

⇒ Dylai'r Cynulliad barhau i gryfhau cymunedau a sichrau bod rhaglenni addas yn rhoi cyfleoedd i berchnogion unedau adwerthu gwledig a'u cyflogwyr gyda'r nod o ychwanegu at eu gallu i ysgogi gweithgarwch a datblygiad cymunedol. Byddai'r rhaglen yn cynnwys yr elfennau a ganlyn:

- Mentora a chefnogaeth gan y rhai sy'n gweithredu rhaglenni tebyg

- **Hyfforddiant**
- **Cyfenwid arfer dda drwy gyfrwng:**
 - **Teithiau Astudio**
 - **Seminarau/Cynadleddau.**
 - **TGCh a chyfryngau mwy traddodiadol.**
- **Cefnogaeth i alluogi adwerthwyr i fabwysiadu cynlluniau sy'n bod eisoes yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.**

5.25 Gwahanu gwahanol swyddogaethau unedau adwerthu gwledig.

Mae unedau adwerthu yng nghefn gwlad Cymru yn amrywio o ran hyfywedd masnachol:

1. y rhai sy'n fusnesau ffyniannus, proffidiol sy'n cyflogi pobl ac sy'n sicrhau incwm da i'r perchennog neu'r tenant
2. y rhai sy'n gweithredu ar elw bychan ond sy'n gwneud digon o elw i gwrdd ag anghenion y perchennog neu'r tenant
3. y rhai lle mae angen cynlluniau penodol i gynyddu'r nifer sy'n croesi'r rhiniog er mwyn sicrhau dyfodol o ryw fath
4. y rhai lle mae angen rhyw fath o gymhorthdal cost gwerthiannau er mwyn sicrhau digon o elw iddynt barhau ar ryw ffurf neu'i gilydd
5. y rhai lle mae angen cymhorthdal prisiau adwerthu i bob pwrpas er mwyn sicrhau eu bod yn talu ffordd

Yn (1) a (2) mae'r sector preifat yn gweithredu'n gyffyrddus. Yn (3), fel y nodwyd eisoes, mae rôl i'r sectorau cyhoeddus a phreifat roi cymorth sy'n cael ei lywio'n fasnachol ac sy'n arwain at gynladwyedd yn y tymor canolig a'r hirdymor. Yn (4) mae angen ystyried pa fath o gymhorthdal sydd ei angen, sut y dylid ei gyflwyno a pha fath o uned adwerthu (o ran perchnogaeth h.y. eiddo annibynnol / cymunedol / sector cyhoeddus) sydd â hawl i gymorth ariannol cyhoeddus o'r fath. Yn (5) rhaid ystyried a ddylid rhoi cymorth ariannol o unrhyw fath iddynt.

5.26 Mae'r amgylchiadau hyn wedi'n harwain at y ddau gasgliad a ganlyn:

- Mae angen defnyddio meini prawf 'llinell isaf' masnachol wrth benderfynu a yw'n briodol defnyddio adnoddau cyhoeddus
- O ganlyniad i'r uchod dylid cydnabod bod unedau adwerthu gwledig yn cynnig dau wasanaeth gwahanol : gwasanaeth adwerthu a gwasanaeth cymunedol ehangach, ac mae angen datgysylltu'r ddau wasanaeth mewn amgylchiadau lle pennwyd bod yr elfen adwerthu wedi disgyn yn is na'r 'llinell isaf' sy'n caniatáu iddo fod yn fasnachol hyfyw.

Mae goblygiadau pwysig i'r casgliad diwethaf o ran polisi cyhoeddus a dyrannu adnoddau.

- 5.27 Os derbyniwn nad rôl briodol y sector preifat yw cadw siop yna mae'n hanfodol, yn ein tyb ni, fod y sector cyhoeddus yn cydnabod ei rôl yn y gwaith o sicrhau bod y gwasanaeth cymunedol ehangach y mae'r uned adwerthu wedi bod yn ei gynnig, yn rhan o'i gyfrifoldebau.

Mae'r rhan hon o'r gwasanaeth yn cynnwys:

- canolbwynt ar gyfer gweithgarwch cymunedol
- unigolyn allweddol sy'n gallu ysgogi gweithgarwch cymunedol
- lle i gyflwyno gwybodaeth
- a rhywbeth mor sylfaenol â chreu ymdeimlad o gymuned .

Os derbynnir yr egwyddor o ddatgysylltu deuoliaeth y rôl, yna y cwestiwn a erys yw pa ran o'r sector cyhoeddus ddylai ysgwyddo cyfrifoldeb am y swyddogaeth gymunedol hon.

Yn ein tyb ni, ymddengys y byddai'r gweithgarwch hwn yn cyd-fynd yn briodol iawn â chyfrifoldebau Awdurdodau Lleol. Mae'n anodd gweld sut y gellid rhoi'r cyfrifoldeb hwn ar asiantaethau sy'n bennaf gyfrifol am y broses o gynyddu Cynnyrch Mewnwladol Crynswth Cymru.

- 5.28 Problem arall sy'n codi yw sut i sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau a fydd wedi diflannu, yn dal ar gael i bobl. Ar un ystyr dyma'r broblem hawsaf, yn yr ystyr y bydd yn anochel yn cynnwys nifer gyfyngedig o bobl (fel arall, byddai'n fwy tebygol y byddai'r uned adwerthu wedi parhau) ond dyma hefyd y broblem anoddaf yn yr ystyr bod yn rhaid sicrhau bod gwasanaethau adwerthu ar gael ar gyfer y rhai sydd ar gyrion cymdeithasau cefn gwlad Cymru.

Argymhelliad

⇒ **Dylai'r Cynulliad sefydlu blaenoriaeth glir yng nghyswllt rôl y sector cyhoeddus yn y gwaith o gynnal gweithgarwch adwerthu gwledig ac y dylai'r polisi gwmpasu'r canlynol:**

- **Cydnabod mai nid rôl briodol y sector cyhoeddus yw gweithredu fel adwerthwr na rhoi cymorth uniongyrchol i wasanaethau adwerthu nad ydynt yn hyfyw.**
- **Cydnabod swyddogaeth gymunedol y sector cyhoeddus ac os bydd bygythiad uniongyrchol yn sgil cau uned adwerthu, dylid llunio cynllun gweithredu dan arweiniad yr awdurdod lleol neu'r cyngor cymuned yng nghyswllt creu canolbwynt i weithgarwch cymunedol yn y dyfodol.**
- **Cydnabod bod angen cynlluniau penodol a ariennir gan y sector cyhoeddus i sicrhau bod gwasanaethau adwerthu ar gael i'r rheini sydd dan anfantaes pan fo gwasanaethau ymhell oddi wrthynt. Gallai hyn gynnwys:**

- **Cysylltiadau trafndiaeth rheolaidd.**

- **Cynlluniau danfon i'r cartref.**

6 Darparu gwasanaethau cefnogi

- 6.1 Mae corff penodol yn bod i gefnogi adwerthwyr gwledig. Sefydlwyd Virsa (Village Retailers Service Association) 10 mlynedd yn ôl gan adwerthwr a wynebai sefyllfa lle byddai'n rhaid cau siop y pentref. Yn yr achos hwn, daeth y gymuned i'r adwy ac mae'r siop yn awr yn cael ei rhedeg fel busnes sy'n eiddo i'r gymuned. Ar sail y profiad hwn, penderfynwyd y dylid sefydlu Virsa i gynorthwyo cymunedau sy'n wynebu sefyllfa debyg. Fe'i lleolir yn Dorchester ac mae'r rhwydwaith yn ymestyn, hyn yn hyn, ar hyd a lled Lloegr. Dim ond yn ddiweddar y mae Virsa wedi dechrau gweithredu yng Nghymru ac wedi rhoi adnoddau i Gymru. Mae'n gweithio'n agos gyda'r Countryside Agency yn Lloegr ac yn awr mae ganddo rwydwaith o gynghorwyr adwerthu ar hyd a lled Lloegr.
- 6.2 Ym marn Virsa, mae prinder cynghorwyr adwerthu yng Nghymru sy'n gallu cynnig cyngor a chefnogaeth i siopau pentref bach gwledig. Er mwyn ymdrin â'r hyn yr oeddynt yn ei ganfod fel bwlch yn y gwasanaethau cefnogi, mae Virsa yn awr yn cyflogi dau swyddog datblygu rhan amser yng Nghymru, un yng Ngogledd Cymru a'r llall ym Mrycheiniog. Dyma'u swyddogaeth:
- i) hysbysu cyrff cyhoeddus o fodolaeth Virsa a hyrwyddo gwaith Virsa drwy'r cyrff hyn.
 - ii) gweithio gyda grwpiau cymunedol ac unigolion sydd mewn perygl o golli siop y pentref drwy gynnig cefnogaeth datblygu busnes, cyngor adwerthu sylfaenol a'u cynnal yn gyffredinol.
 - iii) cynghori unigolion preifat sy'n awyddus i agor siopau pentref newydd neu sy'n awyddus i gynnig prynu siopau sy'n bod eisoes.
- 6.3 Mae Virsa yn cyfeirio at nifer o enghreifftiau o gynlluniau adwerthu gwledig llwyddiannus sydd â chanolbwynt cymunedol cryf, ac y gellid eu hefelychu ar hyd a lled Cymru pe bai'r gefnogaeth briodol ar gael:
- Cyflwynodd swyddfa bost Llanbrynmair fodd i gwsmeriaid ddefnyddio'r rhyngwyd fel rhan o'r gwasanaethau a gynigiai. Er i'r siop gael ei rhoi ar y farchnad wedyn, gan ei bod wedi llwyddo i gadw cwsmeriaid, llwyddwyd i'w gwerthu'n breifat.
 - Yn Sennybridge prynwyd y Shoe Makers Arms gan y gymuned.
 - Mae Llanbadarn Fynydd yn enghraifft o gymuned sy'n rheoli amrywiaeth o wasanaethau – y gymuned yw perchnogion y modurdy ac mae ganddynt siop mewn caban symudol. Mae ganddynt hefyd neuadd gymuned fawr lle mae teleganolfan.
 - Yn Llangunllo, ger Knighton, bu farw perchennog siop y pentref ac er nad ailagorwyd y siop fel yr oedd gynt, agorodd grŵp o

wirfoddolwyr siop ran amser yn un o ystafelloedd tafarn breifat leol. Mae'r siop yn gwerthu cynnyrch lleol ac mae'n prynu eitemau eraill o'r archfarchnadoedd gan chwilio am y 'bargainion gorau' (2 am bris 1 etc.) Mae gwasanaeth swyddfa bost ran amser ar gael hefyd gan fod postfeistr y pentref cyfagos yn dod i'r siop ddeuddydd yr wythnos. Mae'r siop ar agor bron bob bore a 2 brynhawn bob wythnos a thelir rhent wythnosol i berchnogion y dafarn.

Mae gan Virsa brosiect ar y cyd gyda Sparc (grŵp LEADER De Sir Benfro) yng Ngorllewin Cymru sydd wedi datblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer adwerthwyr a pherchnogion siopau pentref bychain. Cyflwynwyd y rhaglen yn arbrofol yn Sir Benfro yn ddiweddar. Mae Virsa yn ystyried hyfforddiant fel elfen hanfodol yn y broses o sicrhau dyfodol unedau adwerthu gwledig.

6.4 Er nad yw Virsa ei hun yn gorff y gellir ymaelodi ag o, y mae wedi sefydlu Cynghair Siopau Gwledig (RSA) a fydd yn ceisio dod â pherchnogion siopau gwledig at ei gilydd. Bydd yr RSA yn gweithio gyda swyddfeydd post a'r cwmnïau siopau cadwyn megis Londis a Spar i ddatblygu syniadau newydd ar y cyd ac i roi cefnogaeth.

6.5 Un enghraifft o gefnogaeth a dargedwyd at unedau adwerthu gwledig yw rhaglen 'Vital Villages' y Countryside Agency sy'n cynnig pecyn o gymorth ariannol i gyflwyno prosiectau adwerthu cymunedol, neu i ehangu busnesau presennol, neu i gynnal busnesau sydd dan fygythiad, neu i greu gwasanaethau adwerthu newydd. Mae cyfanswm o £48 miliwn ar gael. Mae'r mathau o gymorth sydd ar gael yn cynnwys £7,500 i gymuned i'w cynorthwyo i sefydlu siop gymunedol ac mae grantiau unigol o hyd at £25,000 i'w cael o Gronfa Gwasanaethau Cymunedol.

6.6 Mae dirfawr angen cefnogaeth briodol i fusnesau a hyfforddiant adwerthu penodol yng Nghymru. Problem llawer o siopau yw nad ydynt yn gwybod sut i ddarparu eitemau a gwasanaethau y mae ar gwsmeriaid posibl eu hangen. Byddai hyfforddiant adwerthu sylfaenol yn gwella'r sefyllfa hon. Gwelir bod y broses o wella gwybodaeth adwerthu mewn siopau a swyddfeydd post yn allweddol i'w llwyddiant mewn pentrefi gwledig.

Pan fo uned adwerthu yn gysylltiedig â rhwydwaith ehangach megis Spar neu Londis neu Swyddfa'r Post neu fragdy, yna mae'r gefnogaeth hon ar gael ar lefel uwch neu is. Yn sicr y mae'n datblygu wrth i'r cyfundrefnau hyn sylweddoli bod angen datblygu sgiliau adwerthwyr unigol. Pan fo'r uned yn annibynnol mae llai o gefnogaeth o lawer ar gael.

6.7 Mae Cyswllt Busnes yng Nghanolbarth Cymru yn cyflogi 2 ymgynghorydd adwerthu ac mae gwasanaeth tebyg ar gael yng Ngogledd Cymru. Maent yn ymdrin â phob agwedd ar gyngor adwerthu

ond tueddant i beidio â chynnwys gwasanaethau sy'n eiddo i'r gymuned. Gall cyrff eraill megis y grwpiau Leader a'r Asiantaethau Menter gynnig cymorth arbenigol cyfyngedig. Fodd bynnag, nid ydym wedi medru darganfod lefel arwyddocaol o gyngor adwerthu arbenigol i'r adwerthwr sydd â busnes annibynnol mewn pentref. Ymddengys nad oes cyngor ar gael i siopau pentref yn benodol heblaw am y cyngor a gynigir gan Virsa, ac maent hwy'n dueddol o ymateb i ymholiadau yn ôl y galw a phrin yw'r adnoddau sydd ganddynt, os oes adnoddau ganddynt o gwbl, i gymryd camau cadarnhaol i gynnig cefnogaeth.

- 6.8 Awgrymwn fod dau ddewis ar gael yng nghyswllt cynnig rhagor o gymorth a chefnogaeth i adwerthwyr gwledig. Yn gyntaf, yn hytrach na cheisio galluogi asiantaethau cefnogi busnes yn y sector cyhoeddus i gynnig cyngor adwerthu arbenigol o safon, asiantaethau sydd hefyd yn gallu darparu gwasanaethau ar hyd a lled cefn gwlad Cymru, efallai y byddai'n gwneud mwy o synnwyr ac y byddai'n fwy effeithiol dynodi corff priodol i weithredu fel man cyswllt unigol.

Byddai hyn yn adlewyrchu'r meddylfryd presennol tuag at gefnogi busnesau a byddai hefyd yn cydnabod bod angen lefel uchel o gefnogaeth arbenigol ar y sector adwerthu ynghylch materion sy'n cynnwys cynnig amrywiaeth o nwyddau, dylunio, dosbarthu a phrisio cynnyrch.

- 6.9 Mater i'w drafod yw ble y dylid lleoli'r gwasanaeth hwn. Ymddengys, fodd bynnag, fod tri lle amlwg; Awdurdod Datblygu Cymru, y Cynulliad neu asiantaeth cefnogi busnes arall. Gall hefyd fod yn rhan o swyddogaethau awdurdodau lleol.

Yn ein tyb ni, Awdurdod Datblygu Cymru fyddai'r corff mwyaf addas i ymgymryd â'r rôl am y rhesymau a ganlyn:

- Mae'n cyd-fynd yn naturiol â llawer o'u gweithgareddau eraill megis:
 - Cefnogaeth i fwydydd amaethyddol
 - Datblygu cynlluniau technoleg newydd
 - Dulliau o gefnogi busnesau newydd
- Fel corff sy'n cynrychioli Cymru gyfan mae'r gallu ganddo i sicrhau bod cysondeb a thegwch yn y modd y cyflwynir y gwasanaeth.

Credwn y byddai'n rhaid iddynt ymgymryd â'r rôl ar sail a fyddai'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r materion yn ymwneud â hyfywedd masnachol a archwiliwyd uchod.

- 6.10 Yr ail ddewis yw sicrhau gwasanaethau tebyg gan gorff trydydd parti neu gyrff sy'n cydweithio mewn partneriaeth gyda lefel uwch o gyngor a chefnogaeth adwerthu uniongyrchol a chydag asiantaeth fel Awdurdod Datblygu Cymru yn gweithredu fel rheolwr contract. Dan yr

amgylchiadau hyn, byddai'r Cynulliad yn datblygu'r strategaeth gyffredinol ac yn darparu arian. Byddai Awdurdod Datblygu Cymru yn datblygu manyleb fanwl ar gyfer y gwasanaeth a ddarperir ac yn estyn gwahoddiad i gyrff dendro am gontract i ddarparu'r gwasanaethau. Byddai hyn yn adlewyrchu'r cysylltiadau sy'n ymddangos yn strwythur a phroses ddiwygiedig Cyswllt Busnes.

6.11 Byddai'r naill ddewis neu'r llall yn cynnig y gwasanaethau a ganlyn:

- **Rhoi rhywfaint o gyngor a chefnogaeth yn uniongyrchol.** Un fantais sylweddol o gynig cymorth o un man cyswllt yw y byddai gallu'r gwasanaeth i gynig arbenigedd adwerthu yn tyfu dros gyfnod ac i ryw raddau byddai'n gallu ymdrin â'r 'bwlch' a amlygwyd eisoes mewn arbenigedd yn y sector cyhoeddus. Gallai maint y cyngor a'r gefnogaeth wahaniaethu'n sylweddol rhwng y naill ddewis a'r llall.
- **Archwilio, casglu a lledaenu arferion (da a drwg).** Yn sgil yr astudiaeth hon mae'n amlwg y gwnaed cryn dipyn o waith eisoes yng nghyswllt nodi ffyrdd a dulliau o gefnogi busnesau adwerthu gwledig ac, yn fwy arwyddocaol, maent yn tyfu o hyd. Nid yw'r gwaith hwn wedi'i seilio ar waith ymchwil ac adroddiadau yn unig, ond yn bwysicach, y mae'n cynnwys rhoi nifer fawr o gynlluniau ar waith. Mae'n bwysig rhoi'r un faint o sylw i gynlluniau'r sector preifat a'r trydydd sector ag a roddir i gynlluniau'r sector cyhoeddus. Byddai'n hynod wastraffus peidio â manteisio ar y gwaith hwn a chael rhyw fecanwaith i ddod â'r cwbl at ei gilydd a sicrhau ei fod ar gael i holl ardaloedd cefn gwlad Cymru.
- **Cyfeirio** Byddai'n hollol ddisynnwyr sefydlu un man cyswllt a fyddai wedyn yn dyblygu'r gefnogaeth arbenigol a chyffredinol sydd eisoes ar gael. Mae angen i'r man cyswllt canolog, felly, ddarganfod pa fath o gefnogaeth sydd ei hangen ar fusnesau adwerthu gwledig ac ym mha lefydd yng nghefn gwlad Cymru. Byddai modd wedyn darganfod y gefnogaeth sydd ar gael a fyddai'n bodloni'r gofynion hynny. Efen bwysig o safbwynt llwyddiant y dull hwn yw monitro cynnydd client unigol yn ystod y broses gefnogi gan werthuso'r gefnogaeth a gynigir. Byddai hyn wedyn yn dylanwadu ar y modd y mae'r gwasanaethau'n datblygu.
- **Datblygu a hyrwyddo'r broses o gydweithio â'r sector preifat.** Un thema sy'n ailymddangos yn yr adroddiad hwn yw'r angen i gydnabod pwysigrwydd y sector preifat wrth geisio sicrhau dyfodol unedau adwerthu gwledig. Mae'n bosibl bod tuedd i edrych tuag at gynlluniau a ariennir gan y sector cyhoeddus, heb efallai, archwilio'r holl bosibiliadau y gall y sector preifat eu cynnig. Byddai un fantais amlwg mewn ateb a gynigid gan sector hwn, sef, y byddai, oherwydd ei natur gynhenid yn seiliedig ar hyfywedd masnachol a chynladwyedd yn y tymor canolig a'r hirdymor.

6.12 Yn y naill ddewis a'r llall, buan iawn y deuai'n amlwg pa agweddau ar y gefnogaeth nad ydynt ar gael neu nad ydynt yn cwrdd â gofynion yr

adwerthwyr gwledig annibynnol. Mae'n debyg y byddai'r ymateb yn wahanol ym mhob achos. Byddai'n rhaid penderfynu a ddylid datblygu'r gallu i gwrdd â'r gofynion o fewn y sector cyhoeddus neu a ddylid ceisio cwrdd â'r gofynion drwy ddatblygu gallu cyrff sy'n bod eisoes, yn enwedig y rheini sy'n arbenigo yn y maes.

Argymhelliad

- ⇒ **Dylid ystyried dau ddewis posibl:**
 - i. sefydlu un man cyswllt lle cynigir cefnogaeth i wasanaethau adwerthu gwledig a'i leoli yng nghyfundrefn Awdurdod Datblygu Cymru.**
 - ii. Awdurdod Datblygu Cymru i weithredu fel rheolwr contract ar gyfer gwasanaethau a gynigir ar dendr. Gallai hyn gynnwys lefel uwch o wasanaethau uniongyrchol na dewis (i)**

- ⇒ **Dylai'r Cynulliad sicrhau bod arian ar gael i ddatblygu gallu'r gwasanaethau cefnogi yng nghyd-destun mabwysiadu dulliau strategol o gefnogi a datblygu gwasanaethau adwerthu gwledig.**

7. Effaith trethi busnes ar unedau adwerthu gwledig

- 7.1 Bydd y Cynulliad yn cyflwyno canllawiau newydd fis Ebrill 2002 a fydd yn newid gostyngiad trethi yng nghefn gwlad.

Ar hyn o bryd dim ond swyddfeydd post neu siopau pob dim sy'n gweithredu mewn aneddiad gwledig ac sydd â gwerth trethiannol o lai na £5,000 sy'n gallu manteisio â gostyngiad gorfodol o 50%. Y Cynulliad sy'n ariannu hyn o'r gronfa trethi domestig.

Bydd y newidiadau'n cynyddu nifer y busnesau a fydd yn cael ei hawlio gan gynnwys tafarndai, gwestai, siopau, caffis a gorsafoedd petrol. Yn ogystal â hyn, £9,000 fydd trothwy gwerth trethiannol ar gyfer tafarndai a gorsafoedd petrol a £6,000 ar gyfer busnesau eraill.

- 7.2 Yn ôl y canllawiau presennol, gall awdurdodau lleol roi gostyngiad dewisol o hyd at 100% i swyddfeydd post a siopau cyffredinol. Mae modd rhoi gostyngiad dewisol hefyd i fusnesau eraill yn yr ardaloedd perthnasol sy'n cynnig gwasanaeth hanfodol i'r gymuned. Ar hyn o bryd dim ond busnesau sydd â gwerth trethiannol o lai na £10,000 sy'n cael hawlio'r gostyngiad dewisol hwn.

Bydd y canllawiau newydd yn codi trothwy gwerth trethiannol i £12,000. Bydd elfen y gostyngiad y bydd y Cynulliad yn gyfrifol amdani hefyd yn codi o 75% i 90%. Yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am dalu'r gweddill.

- 7.3 Mae 11 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn cynnig gostyngiad dewisol ar hyn o bryd. Nod y canllawiau newydd yw ehangu'r defnydd o ostyngiad dewisol. Mae'r Cynulliad yn disgwyl y bydd y canllawiau newydd o fantais i 25,000 o fusnesau ychwanegol yng nghefn gwlad Cymru.
- 7.4 Fel rhan o'r astudiaeth hon, aethom ati i siarad yn uniongyrchol â phum awdurdod lleol yng Nghymru sydd â nodweddion gwledig yn bennaf:

Sir Gaerfyrddin
Gwynedd
Powys
Ynys Môn
Sir Ddinbych

Y darlun a ddaeth i'r amlwg oedd bod amrywiaeth yn y modd y rhoddwyd gostyngiad trethi busnes o ran lefel y gostyngiad, pa fath o uned adwerthu oedd yn cael ei hawlio a'r broses o benderfynu

- 7.5 Sir Gaerfyrddin

Mae siopau a swyddfeydd post yn cael 100% o ostyngiad trethi. Os yw'r swyddfa bost yn rhan o'r siop yna mae'r swyddfa bost yn cael

100% o ostyngiad ac mae'r siop yn cael 50%. Yn achos busnesau gwledig eraill fel tafarndai a gorsafoedd petrol, ystyrir pob cais yn unigol. Y meini prawf allweddol yw faint o fudd yw'r busnes i'r gymuned, pa mor bwysig yw'r gostyngiad i barhad y busnes a pha mor ynysig yw'r gymuned benodol lle mae'r busnes wedi'i sefydlu. Yn yr achosion hyn cynigir yr uchafswm o 50% o ostyngiad yn unig ac mae'n rhaid i Gabinet yr awdurdod lleol gadarnhau unrhyw argymhellion a gyflwynir gan swyddogion yr awdurdod lleol.

7.6 Gwynedd

Mae pob swyddfa bost ar hyn o bryd yn manteisio ar 100% o ostyngiad trethi busnes os ydynt mewn ardaloedd a ddynodwyd yn ardaloedd lle gellir hawlio gostyngiadau ardaloedd gwledig. Gall siopau pentref eraill wneud cais i'r awdurdod lleol am hyd at 50% o ostyngiad. Seilir y penderfyniad yn rhannol ar y math o nwyddau a werthant ac, er enghraifft, ni fyddai unedau paratoi bwyd, bwytai ac unedau crefft yn gallu ei hawlio. Ar hyn o bryd ni fyddai tafarndai na gorsafoedd petrol yn gallu hawlio gostyngiad trethi hyd at 50%. Yr adran trethi busnes sy'n penderfynu. Dim ond achosion anodd neu achosion y mae angen i swyddogion gael arweiniad yn eu cylch sy'n cael eu cyfeirio at y swyddog trethiant a'r trysorydd. Nid yw aelodau etholedig yn rhan o'r penderfyniadau.

7.7 Powys

Mae swyddfeydd post a siopau pentref yn cael hawlio gostyngiad treth gorfodol o 50%. Rhoddir gostyngiadau dewisol ychwanegol. Rhaid i fusnesau fod mewn ardal benodedig sy'n ymestyn ar hyd a lled y sir i gyd ac eithrio Ystradgynlais, Brycheiniog, y Drenewydd, y Trallwng a Llandrindod, a rhaid i'w gwerth trethiannol fod yn llai na £5000. Mae busnesau gwledig sydd â gwerth trethiannol o hyd at £10,000 yn cael gostyngiad o hyd at 100% os pennir bod y busnes yn cynnig gwasanaethau sydd o fudd uniongyrchol i'r gymuned. Yr adran trethi busnes sy'n cyflwyno'r argymhellion gerbron pwyllgor penodol o aelodau etholedig.

7.8 Ynys Môn

Mae'r busnesau hynny sy'n gweithredu mewn ardaloedd lle ceir gostyngiad ardaloedd gwledig, sef pobman ac eithrio Porthaethwy, Caergybi a Llangefni, ac sydd â gwerth trethiannol o lai na £1,500 yn cael 100% o ostyngiad gorfodol. Mae hyn yn cynnwys swyddfeydd post a siopau pentref. Rhoddir gostyngiad gorfodol o 50% i fusnesau sydd â gwerth trethiannol o hyd at £5000. Mae siopau pentref mewn pentref lle mae siopau tebyg eraill yn cael hawlio gostyngiad o 25% oni bai fod eu gwerth trethiannol yn llai na £1,500. Dan yr amgylchiadau hyn, byddent yn cael gostyngiad o 100%. Er mwyn cael gostyngiad dewisol rhaid i'r siopau pentref ddangos eu bod o fudd i'r gymuned y maent yn ei

gwasanaethu, ar wahân i dwristiaid, sy'n cael eu heithrio'n benodol. O ganlyniad, rhaid i'r siopau fod ar agor 48 wythnos y flwyddyn. Mae fferyllfeydd yn cael eu trin yn yr un modd â swyddfeydd post a siopau pentref. Aelodau etholedig sy'n pennu rheolau cyffredinol gostyngiadau, ond did ydynt yn ymwneud ag achosion unigol.

7.9 Sir Ddinbych

Cynigir gostyngiadau yn unol â'r canllawiau presennol. Ystyriwyd rhoi gostyngiad i dafarndai preifat ac fe'i rhoddwyd yn y gorffennol. Mae aelodau etholedig wedi cytuno ar ganllawiau sy'n rhoi ystyriaeth i feini prawf e.e budd i'r gymuned leol a chyfleoedd gwaith i bobl leol. Gofynnir am gyfrifon dwy flynedd gyda phob cais am ostyngiad a swyddogion yr awdurdod lleol sy'n penderfynu pa geisiadau sy'n llwyddo.

- 7.10 Ym 1992/93 cynhaliodd Adran yr Amgylchedd ymchwil arwyddocaol a oedd yn edrych yn fanwl ar effaith trethi busnes. Archwiliwyd arwyddocâd costau'r trethi ar fusnesau. Cynhaliwyd yr ymchwil, wrth gwrs, yn fuan ar ôl cyflwyno'r Trethi Busnes Unffurf ym 1990.

Prif amcanion yr astudiaeth oedd:

- Asesu arwyddocâd y trethi o ran cost y busnes mewn perthynas â throsiant, cyfanswm y costau cyffredinol a phroffidioldeb.
- Gweld a oedd yr effaith yn amrywio mewn unrhyw ffordd systematig drwy edrych ar nodweddion busnes allweddol.

Roedd traean o'r prif gwmnïau masnachu (PGM) a astudiwyd yn rhan o'r sector adwerthu / dosbarthu ac roedd 25% ohonynt yn berchen ar yr adeilad lle roeddynt yn masnachu ac, felly, y trethi oedd yr unig gostau a oedd ganddynt o ran adeiladau.

Roedd 81% o'r PGM gyda throsiant o < £50,000 yn gwario 10% neu ragor o'u holl gostau cyffredinol ar gostau adeiladau gyda'r rhan fwyaf o'r cwmnïau mawr (trosiant o £10miliwn +) yn gwario dim mwy na 2%.

Yn ystod cyfnod yr ymchwil, £3,300, ar gyfartaledd, oedd bil trethi'r PGM oedd â throsiant o lai na £50,000.

Yng nghyswllt PGM gyda throsiant o lai na £50,000 roedd trethi ar gyfartaledd yn cynrychioli 35.9% o'u helw a 13.7% o'u costau cyffredinol. Yn arwyddocaol, y naid fwyaf yng nghostau cymharol trethi oedd rhwng PGMau sydd â throsiant o rhwng £100,000 a £499,000 lle mae'n cynrychioli 17.2% o'r elw a'r rheini sydd â throsiant o rhwng £50,000 a £99,000 lle mae'n cynrychioli 31.8% o'r trosiant.

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at ddau gasgliad arwyddocaol yng nghyd-destun yr adroddiad hwn. Yn gyntaf, mai'r grŵp o fusnesau yr

effeithiodd y Trethi Busnes Unffurf arnynt fwyaf oedd y busnesau hynny sydd â throsiant o lai na £100,000, ac yn ail, daeth yn amlwg mai maint oedd y ffactor pwysicaf wrth ystyried effaith trethi ar fusnesau. Nid oedd effaith nodweddiol eraill yn ymwneud â'r busnes megis sector diwydiannol, lleoliad a math o adeilad mor amlwg.

- 7.11 Wrth ymgymryd â'r astudiaeth hon, nodwyd mai trethi busnes oedd y ffactor allweddol yn llwyddiant busnesau gwledig gan VIRSA (Cymdeithas Siopau Pentref) a chan gynghorydd sydd wedi ymgymryd â gwaith ar ran Nomura (banc Japaneaidd) sy'n berchen ar gadwyn o dafarndai, Unique, sy'n amlwg iawn yng nghefn gwlad Prydain.

Yn achos VIRSA gwnaed y pwyntiau a ganlyn:

- Baich y trethi eu hunain
- Y cymhlethdod sy'n rhan o sefyllfa gyfnewidiadwy
- Yr angen i ostyngiad treth lunio rhan o becyn cynhaliath cydlynnus.

- 7.12 Roedd safbwynt grŵp tafarndai Unique yn gwbl glir. Mae, ac roedd, trethi busnes a'r gostyngiad sydd ar gael yn ffactor sylfaenol ym mhenderfyniad tenant i aros mewn adeilad neu i'w adael.

Argymhelliad

⇒ **Dylid cynnal arolwg o'r canllawiau newydd ar gyfer gostyngiad trethi yn ystod 2003/4 a ddylai gynnwys yr elfennau a ganlyn:**

- **I ba raddau y mae ardaloedd awdurdodau lleol yn amrywio o ran y gostyngiad trethi a roddant.**
- **Nodi'r busnesau hynny y bu sicrhau gostyngiad trethi yn ffactor allweddol iddynt o ran sicrhau llwyddiant neu fethiant y busnes.**
- **Bod yr amrywiol ostyngiadau sydd ar gael yn cael ei hyrwyddo'n briodol ac y cymerir camau i sicrhau y bydd cynifer ag y bo modd yn manteisio arnynt**
- **Bod cysondeb yn y ffordd y mae awdurdodau ledled Cymru yn pennu trethi**

⇒ **Dylid ystyried rhoi hyd at, ac yn cynnwys, 100% o ostyngiad trethi busnes ychwanegol penodol, gan ddiystyru gwerth trethiannol, i'r cynlluniau adwerthu hynny sy'n rhan o'r strategaeth a gynigir yn argymhellion cyffredinol yr adroddiad hwn.**

8. Argymhelliad cyffredinol

8.1 Mae un argymhelliad cyffredinol unigol. Dylai'r Cynulliad ddatblygu a mabwysiadu, fel polisi, dull strategol o gynnal gwasanaethau adwerthu gwledig. Byddai hyn yn gwbl wahanol i'r dull digynllun presennol.

Dylid seilio'r dull hwn ar yr egwyddorion a ganlyn:

- Bod y broses o'i ddatblygu a'i weithredu'n seiliedig ar weithio mewn partneriaeth.
- Bod pob dewis sy'n cael ei lywio gan y sector preifat yn cael ei ystyried a'i gefnogi'n llawn cyn buddsoddi arian y sector cyhoeddus.
- Bod unrhyw gefnogaeth yn cael ei rhoi ar yr amod bod y derbynydd yn barod i weithredu'n unol â'r dull strategol.

Dyma fyddai nod y strategaeth:

- Sicrhau rhwydwaith o wasanaethau adwerthu gwledig sy'n hunangynhaliol.
- Sicrhau bod cymorth uniongyrchol ar gael i'r rheini sydd dan yr anfantais fwyaf oherwydd bod gwasanaethau adwerthu gwledig ymhell oddi wrthynt.
- Sicrhau bod sawl canolbwynt arall yn bod ar gyfer hunaniaeth a gweithgarwch cymunedol pan fo gwasanaethau adwerthu gwledig yn dod i ben.
- Sicrhau bod map cynhwysfawr o wasanaethau gwledig ar gael sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.

Dylid cwblhau'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth hon erbyn rownd cynllunio cyllideb 2003/3004 gyda'r bwriad o weithredu'r strategaeth fis Ebrill 2003. Ni ddylai'r amserlen hon amharu ar weithgarwch a rhaglenni presennol i gynnal gwasanaethau adwerthu gwledig.

8.2 Crynodeb o'r argymhellion

- 1) Dylid gweithredu 'Your Guide' yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid o leiaf sicrhau ymrwymiad i egwyddorion 'Your Guide'. Dylid cymryd camau penodol i sicrhau bod Cymru yn manteisio i'r eithaf ar y system 'canolfan wybodaeth' gyffredinol. Gellid sicrhau hyn drwy ddwyn yr holl asiantaethau cyhoeddus at ei gilydd (fel ELWa, awdurdodau lleol a'r Cynulliad) gyda chwmnïau wrth gynllunio a gweithredu 'Your Guide'.
- 2) Dylai'r Cynulliad ystyried ychwanegu at y cynllun grant cyfalaf a dylai'r broses o gymeradwyo grantiau fod yn ddibynnol ar fodloni gofynion y mae'r adroddiad hwn yn eu cymeradwyo ar gyfer mabwysiadu dulliau strategol o ddatblygu a chynnal gwasanaethau adwerthu gwledig.

- 3) Er mwyn gweithredu dulliau strategol o leoli gwasanaethau swyddfeydd post yng Nghymru yn y dyfodol, dylid archwilio'r posibilrwydd o fabwysiadu agwedd wahanol tuag at gau swyddfeydd post yng Nghymru. Rhaid seilio hyn ar system a fyddai'n caniatáu cau swyddfeydd post pe bai hynny'n rhan o gynllun strategol i sicrhau bod gwasanaethau post ar gael mewn ardal ddaearyddol benodol.
- 4) Dylai'r Cynulliad annog pob asiantaeth a chorff sydd â rhan yn y gwaith o gynnal cymunedau gwledig (gan gynnwys awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa, yr undebau amaethyddol a'r sectorau preifat a chyhoeddus) i gydweithio â Consignia drwy'r Cynghorwyr Trosglwyddo Gwledig. Nod y cyswllt hwn fyddai parhau i chwilio am ddulliau arloesol o sicrhau gwasanaethau swyddfeydd post gwledig yn y dyfodol.
- 5) Dylai bod gan bostfeistri a meistresi hawl i fanteisio ar y cynnig yn ymwneud ag Entrepreneuriaid Cymunedol a nodir mewn argymhelliad diweddarach.
- 6) Dylid ystyried nodi swyddogaeth bendant i Gynghorau Cymuned a grwpiau cymuned yn y gwaith o gynllunio ar gyfer dyfodol gwasanaethau adwerthu gwledig yng nghyd-destun strategaethau cyffredinol o fewn ardal awdurdod lleol. Mae'n amlwg y byddai angen i awdurdodau lleol a'r asiantaethau perthnasol eraill gefnogi unrhyw swyddogaethau newydd.
- 7) Gallai'r rôl hon gynnwys:
 - Cyfrifoldeb am fesur barn a mesur cefnogaeth leol i wasanaethau adwerthu penodol
 - Gweithredu fel canolbwynt ar gyfer unrhyw gynllun cymunedol
 - Mabwysiadu dull strategol tuag at ddatblygu clwstwr o wasanaethau fel yr argymhellir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.
- 8) Er mwyn i Gynghorau Cymuned a grwpiau cymuned ddatblygu eu rôl yn y modd hwn, byddai angen ystyried ac ymdrin â lefel yr adnoddau a'r gallu sy'n angenrheidiol.
- 9) Dylai'r Cynulliad gynnal arolwg cynhwysfawr o wasanaethau gwledig bob dwy flynedd tebyg i arolygon y Countryside Agency. Y nod fyddai cwblhau'r arolwg cyntaf erbyn diwedd Mawrth 2004.
- 10) Dylid sefydlu grŵp cynghori, gyda'r aelodau'n cynrychioli'r sector adwerthu preifat, gan gynnwys swyddfa'r post. Dylai ei gyfrifoldebau gynnwys y canlynol:
 - Ystyried yr effaith ehangach pan fo uned adwerthu'n cymryd camau amrywiol i gynyddu'r nifer sy'n croesi'r rhiniog, yng

nghyd-destun yr effaith bosibl ar wasanaethau eraill yn yr ardal gyfagos ac ar y gymuned yn gyffredinol.

- Trefniant rhwng gwahanol ddarparwyr gwasanaeth yn y sector preifat i geisio gwella'r sefyllfa.

11) Pe bai grŵp o'r fath yn cael ei sefydlu, yna byddai angen ei gysylltu'n agos iawn â'r strwythur presennol sydd yng Nghymru, ac unrhyw strwythur newydd a ddatblygir, i gynnal adwerthu gwledig.

12) Dylai'r Cynulliad ystyried ariannu cynllun gyda'r nodweddion a ganlyn:

- Prynu unedau adwerthu a fyddai, fel arall, yn rhoi'r gorau i fasnachu.
- Unedau adwerthu'n eiddo i gyfundrefnau sydd â chanolbwynt cymunedol.
- Rhwydwaith o unedau adwerthu sydd â contract â chwmni siopau cadwyn.
- Defnyddio unrhyw elw a wneir fel a ganlyn:
 - Cyfrannu at brynu nwyddau yn y dyfodol.
 - Buddsoddi yn y busnes.
 - Buddsoddi yn y cymunedau y mae'r siopau'n eu gwasanaethu.

13) Fel cam cyntaf, y ffordd orau o wneud hyn fyddai ar ffurf cynllun arbrofol gyda dau gynllun arbrofol, o bosibl, mewn llefydd strategol. Ni ddylid gweithredu'r syniad o glystyru fel ffordd o sicrhau cynladwyedd unedau adwerthu gwledig oni bai fod modd dangos, yn sgil gwerthuso'r cynlluniau arbrofol:

- y byddai'n arwain at rwydwaith o unedau adwerthu hunangynhaliol
- nad oes cynllun ar y gweill sy'n cael ei lywio gan y sector preifat.

14) Dylid mabwysiadu dulliau strategol o ddatblygu'r duedd i glystyru gwasanaethau adwerthu ar sail y wybodaeth fanwl a geir yn yr adroddiad a argymhellwyd eisoes yn yr adroddiad hwn. Gallai'r canlynol lywio a rheoli'r dulliau strategol hyn :

- Awdurdod Datblygu Cymru
- Cynghorau Cymuned mwy Grymus
- Awdurdodau Lleol fel rhan o'u dyletswydd statudol i gynhyrchu cynlluniau cymunedol cyffredinol neu o ganlyniad i arweiniad cynllunio manwl sy'n galw am ddull gwahanol o ddatblygu cynlluniau yng nghefn gwlad.

15) Byddai'n rhaid i'r dull hwn gynnwys:

- Y sector preifat
- Y sector gwirfoddol a'r economi gymdeithasol ehangach
- Y sector cyhoeddus ehangach
- Asiantaethau allweddol eraill megis Swyddfa'r Post

Fel partneriaid cynllunio a darparwyr posibl

16) Dylid cynnig symbyliad i'r sector preifat er mwyn iddynt gymryd rhan ymarferol yn y broses o glystyru gwasanaethau'n strategol drwy sicrhau bod arian cyfalaf ar gael i'w fuddsoddi i roi hwb i'r economi gwledig. Gellid cysylltu'r cymorth ariannol hwn yn uniongyrchol ag unrhyw arian ychwanegol a gynigir yn sgil cynllun grant cyfalaf swyddfeydd post fel y nodwyd eisoes.

17) Dylai'r Cynulliad barhau i gryfhau cymunedau a sicrhau bod rhaglenni addas yn rhoi cyfleoedd i berchnogion unedau adwerthu gwledig a'u cyflogwyr gyda'r nod o ychwanegu at eu gallu i ysgogi gweithgarwch a datblygiad cymunedol. Byddai'r rhaglen yn cynnwys yr elfennau a ganlyn:

- Mentora a chefnogaeth gan y rhai sy'n gweithredu rhaglenni tebyg
- Hyffoddiant
- Cyfenwid arfer dda drwy gyfrwng:
 - Teithiau Astudio
 - Seminarau/Cynadleddau.
 - TGCh a chyfryngau mwy traddodiadol.
- Cefnogaeth i alluogi adwerthwyr i fabwysiadu cynlluniau sy'n bod eisoes yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

18) Dylai'r Cynulliad sefydlu blaenoriaeth glir yng nghyswllt rôl y sector cyhoeddus yn y gwaith o gynnal gweithgarwch adwerthu gwledig ac y dylai'r polisi gwmpasu'r canlynol:

- Cydnabod mai nid rôl briodol y sector cyhoeddus yw gweithredu fel adwerthwr na rhoi cymorth uniongyrchol i wasanaethau adwerthu nad ydynt yn hyfyw.
- Cydnabod swyddogaeth gymunedol y sector cyhoeddus ac os bydd bygythiad uniongyrchol yn sgil cau uned adwerthu, dylid llunio cynllun gweithredu dan arweiniad yr awdurdod lleol neu'r cyngor cymuned yng nghyswllt creu canolbwynt i weithgarwch cymunedol yn y dyfodol.
- Cydnabod bod angen cynlluniau penodol a ariennir gan y sector cyhoeddus i sicrhau bod gwasanaethau adwerthu ar gael i'r rheini sydd dan anfantais pan fo gwasanaethau ymhell oddi wrthynt. Gallai hyn gynnwys:

- Cysylltiadau trafnidiaeth rheolaidd.
- Cynlluniau danfon i'r cartref.

19) Dylid ystyried dau ddewis posibl:

- iii. sefydlu un man cyswllt lle cynigir cefnogaeth i wasanaethau adwerthu gwledig a'i leoli yng nghyfundrefn Awdurdod Datblygu Cymru.
- iv. Awdurdod Datblygu Cymru i weithredu fel rheolwr contract ar gyfer gwasanaethau a gynigir ar dendr. Gallai hyn gynnwys lefel uwch o wasanaethau uniongyrchol na dewis (i)

20) Dylai'r Cynulliad sicrhau bod arian ar gael i ddatblygu gallu'r gwasanaethau cefnogi yng nghyd-destun mabwysiadu dulliau strategol o gefnogi a datblygu gwasanaethau adwerthu gwledig.

21) Dylid cynnal arolwg o'r canllawiau newydd ar gyfer gostyngiad trethi yn ystod 2003/4 a ddylai gynnwys yr elfennau a ganlyn:

- I ba raddau y mae ardaloedd awdurdodau lleol yn amrywio o ran y gostyngiad trethi a roddant.
- Nodi'r busnesau hynny y bu sicrhau gostyngiad trethi yn ffactor allweddol iddynt o ran llwyddiant neu fethiant y busnes.
- Bod yr amrywiol ostyngiadau sydd ar gael yn cael ei hyrwyddo'n briodol ac y cymerir camau i sicrhau y bydd cynifer ag y bo modd yn manteisio arnynt
- Bod cysondeb yn y ffordd y mae awdurdodau ledled Cymru yn pennu trethi

22) Dylid ystyried rhoi hyd at, ac yn cynnwys, 100% o ostyngiad trethi busnes ychwanegol penodol, gan ddiystyru gwerth trethiannol, i'r cynlluniau adwerthu hynny sy'n rhan o'r strategaeth a gynigir yn argymhellion cyffredinol yr adroddiad hwn.

9. Astudiaethau Achos

9.1 Trigolion Llanddaniel Fab

Pentref bach gwledig yw Llanddaniel Fab (poblogaeth oddeutu 700) yn Ne Ynys Môn, hanner ffordd rhwng pentrefi mwy poblog Gaerwen a Llanfairpwll, rhyw 3 milltir o Bont Britannia ac Afon Menai.

Ym 1995 collodd y pentref ei unig siop a gaeodd oherwydd rhesymau masnachol, ac roedd y ffaith bod gwasanaethau Swyddfa'r Post wedi'u lleoli yn yr un adeilad â'r siop yn ychwanegu at y broblem.

Teimlai llawer bod 'calon' y gymuned wedi diflannu. Gan fod y dafarn leol mwy na milltir o ganol y pentref, (yn dechnegol, yn y pentref nesaf) a bod yr ysgol leol ymhellach na hynny, dim ond casgliad o dai oedd ar ôl – gan gynnwys tai pensiynwyr - ac nid oedd gwasanaethau ar eu cyfer o gwbl.

Wedi dau gyfarfod cyhoeddus sefydlwyd pwyllgor i geisio adfer y sefyllfa. Y nod oedd adfer cyfleusterau'r siop/Swyddfa'r Post os oedd modd. Dyma oedd y grŵp cyntaf o'i fath yn yr ardal, ac oherwydd hynny, bu'n rhaid iddynt ymchwilio'n ofalus i bob cam a gymerwyd er mwyn sicrhau bod yr holl ddewisiadau yn cael eu hystyried a'u hasesu cyn gweithredu mewn unrhyw fodd.

Roedd strwythur cyfreithiol y grŵp o bwys mwyaf. Roedd yn rhaid i'r strwythur a ddewiswyd ddiogelu buddiannau pob cefnogwr unigol yn ogystal â'r gymuned yn ei gyfanrwydd. At hyn, roedd y pwyllgor yn cynnwys nifer o bobl broffesiynol (neu bobl broffesiynol a oedd wedi ymddeol) a oedd â chryn allu ac aethant ati i ddadansoddi pob cyngor cyn ei dderbyn (aethant cyn belled â diswyddo cyfreithiwr a gyflogwyd i'w cynorthwyo oherwydd roeddynt o'r farn nad oedd ansawdd y cyngor a roddodd iddynt yn ddigon da).

Trodd y grŵp at Ganolfan Cydweithredol Cymru am gymorth a chafodd yr asesiad a'r cyngor clir a roddwyd gryn argraff arnynt. Penderfynwyd ffurfio cwmni a gyfyngwyd gan warant a fyddai'n cynnig y diogelwch a gynigir gan atebolrwydd cyfyngedig ond a fyddai'n cadw natur ddielw y fenter. Rhoddodd Canolfan Cydweithredol Cymru gymorth i'r grŵp drwy gydol y broses, gan gynnig cefnogaeth/cyngor/gwybodaeth yn ôl y gofyn – a'r grŵp oedd yn dewis lle a phryd i gyfarfod.

Cyn gynted ag y sefydlwyd y strwythur cyfreithiol, aethpwyd ati i geisio cyflawni amcanion y cwmni newydd. Llwyddwyd i godi arian drwy gynllun ymaelodi a benthyciadau preifat, digwyddiadau a gafodd cryn gyhoeddusrwydd (ac a ymddangosodd ar y teledu) i godi ymwybyddiaeth yn ogystal ag arian ychwanegol. Cafwyd arian cyfatebol gyda chymorth Menter Môn.

Yn ganolbwynt i'r ymgyrch roedd adeilad gwag yng nghanol y pentref, yr hen efail. Yn sgil llwyddiant yr ymgyrch codi arian bu modd prynu'r adeilad, ei adnewyddu a'i addasu'n siop ac yn swyddfa bost. Mae'r adeilad yn eiddo i'r cwmni ac mae'n cael ei rhentu i'r bostfeistres sy'n rhedeg ei siop ei hun er mwyn ychwanegu at yr incwm a gaiff gan Swyddfa'r Post. Mae rhenti rhesymol yn golygu bod y busnes yn hyfyw ac yn sicrhau bod y gwasanaeth, a agorodd yng nghanol 1997 yn dal ar gael.

9.2 Fforwm Gwledig Swydd Caer

Ffactor allweddol yn y broses o gadw a datblygu gwasanaethau gwledig hyfyw yw ansawdd a sgiliau rheolwr neu reolwyr y gwasanaethau gwledig hynny. Mae'n bosibl y bydd rhai problemau'n ymwneud â phrinder cwsmeriaid ond mae'r problemau'n aml yn llai difrifol, ac mae modd eu datrys os yw'r rheolwyr yn gyfarwydd ag arfer dda yn rhywle arall.

Yn Swydd Gaer, mae'r fforwm gwledig wedi sicrhau profiad cynghorwyr busnes i asesu hyfywedd eu swyddfeydd post gwledig. Mae gan bob swyddfa bost becynnau gwybodaeth sy'n rhoi manylion am grantiau, gostyngiad trethi, cyngor ynghylch adwerthu a chysylltiadau defnyddiol.

Yn ychwanegol mae is-bostfeistri a meistresi wedi bod yn mynychu cyrsiau di-dâl ar y Sul a gyflwynir gan arbenigwyr iechyd a diogelwch, busnes, marchnata, cyfraith adwerthu. Mae cyfle iddynt hefyd gyfarfod â chyflenwyr megis Mars, Walkers Crisps, Hallmark Cards a Coca Cola.

Nod y rhaglen yw cynyddu sgiliau is-bostfeistri a meistresi i roi gwybodaeth a gallu iddynt droi eu swyddfeydd post yn fusnesau bychain hyfyw a chynaliadwy.

9.3 Cwmni Cydweithredol Cymunedol Papay, Yr Alban

Menter a leolir yn ynys Papay Westray, yn Ynysoedd Orkney yw hon. Cymuned fechan anghysbell yw hon yng Ngogledd Ynysoedd Orkney gyda phoblogaeth o 64. I gyrraedd yno mae'n rhaid teithio ar gwch fferi am 2 awr neu hedfan mewn awyren am 12 munud o Kirkwall (prif dref Orkney), ac i gyrraedd Kirkwall mae'n rhaid teithio am 1½ awr ar gwch fferi o Scrabster ym mhen pellaf gogledd y tir mawr, neu deithio mewn awyren o Inverness.

Mae ysgol gynradd yno (gyda 10 disgybl ar hyn o bryd), mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn ymweld â'r ynys, ac mae trigolion unigol yn ymgymryd â sawl swyddogaeth e.e. postmon, cofrestrydd, gwyliwr y glannau a swyddogaethau eraill. Defnyddir yr ysgol ar gyfer cyfarfodydd cymunedol a chynadleddau fideo.

Mae'r cwmni cydweithredol yn rhedeg siop adwerthu sy'n gwerthu bwyd ac eitemau eraill, hostel / gwesty gydag arlwyfaeth a theithiau tywysedig o amgylch yr ynys yn ystod misoedd yr haf. Mae'r cwmni yn berchen ar fws mini a ddefnyddir i gludo plant i'r ysgol, teithiau tywysedig, cludiant o'r cwch fferi ac i gludo nwyddau o'r siop.

Mae un aelod o staff llawn amser (Goruchwyliwr y Siop) sy'n gweithio 30 awr yr wythnos ar gyfartaledd ac mae chwe gweithiwr rhan amser tymhorol sy'n coginio, gweini bwyd a glanhau'r gwesty a'r hostel.

Sefydlwyd y cwmni cydweithredol ym 1978 (pan oedd poblogaeth o thua 80) fel ymateb i'r posibilrwydd y byddai siop yr ynys yn cau, i arafu diboblogi ac i gwrdd ag anghenion cyflogaeth a gwasanaethau hanfodol. Mae ganddo drosiant o oddeutu £100,000 y flwyddyn yn awr.

Y mae'n aelod corfforaethol o'r Grŵp Corfforaethol a chan hynny, gall archebu drwy'r ganolfan ddisbarthu ranbarthol yn Cumbernauld, ger Glasgow.

Ceir cefnogaeth datblygu gan Tor Justad, Swyddog Materion Cymunedol y Grŵp Cydweithredol ac Angela Meechan, Swyddog Materion Cymunedol sy'n gweithio yn Glasgow.

Roedd y gymuned leol yn ymwneud cryn dipyn â'r gwaith yn ystod y blynyddoedd cynnar ac mae hyn yn parhau hyd heddiw drwy ymroddiad y saith aelod ar y Pwyllgor Rheoli. Mae'r nifer fawr o bobl leol ymroddedig sy'n fodlon treulio cryn dipyn o'u hamser gwirfoddol ac sy'n cyfrannu llawer o ran ymdrech ymarferol, ynghyd ag ymroddiad casgliadol i hanes, diwylliant a natur unigryw yr ynys, yn allweddol i lwyddiant y cwmni. Bu hwn yn ffactor tyngedfennol yn llwyddiant y cwmni er gwaethaf dirywiad yn y boblogaeth, gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf a pheth anhawster recriwtio staff sy'n fodlon gweithio oriau anghyson yn dymhorol.

Rhoddwyd cefnogaeth ariannol ar gyfer datblygu'r fenter gan yr Highlands & Islands Development Board yn ystod y blynyddoedd cynnar. Cafwyd cefnogaeth hefyd gan yr Orkney Islands Council, Orkney Enterprise a'r Scottish Co-op a chan ymgynghorwyr adwerthu a gontractwyd.

9.4 The Dyke's End, Reach

Fis Chwefror 1998 caeodd The Kings, yr unig dafarn ym mhentref Reach yn Swydd Caergrawnt. Roedd y perchennog yn awyddus i werthu'r dafarn fel tŷ preifat. Roedd y pentrefwyr yn credu y byddai'n fusnes hyfyw pe bai'r arweiniad priodol ar gael.

Heidiodd y bobl leol i'r cyfarfod cyhoeddus gan benderfynu, drwy bleidlais unfrydol, gadw'r dafarn ar agor. Ffurfiwyd pwyllgor llywio gyda 9 aelod i arwain yr ymgyrch, a lansiwyd cronfa drwy godi £10 y pen i dalu am unrhyw gostau dechreuol.

Hyd hynny, nid oedd fawr gwahanol i nifer o ymgyrchoedd eraill i achub tafarndai pentref. Fodd bynnag, daeth yn amlwg yn weddol fuan mai'r unig ffordd i'r ymgyrch lwyddo oedd i'r bobl leol eu hunain fod yn rhan o'r pryniant. Roedd y rhydd-ddeiliad yn benderfynol ei fod am wneud cais am newid defnydd. Nid oedd ganddo ddiddordeb mewn achub y

dafarn, a chan mai prin oedd y cofnodion ariannol, roedd hi'n mynd i fod yn anodd gwerthu'r dafarn yn fasnachol fel busnes hyfyw.

Ysbrydolwyd y pentrefwyr gan ymgyrch lwyddiannus ym mhentref cyfagos Abington Pigotts i brynu'r Pig and Abbott ym 1997. Aethant ati i ymchwilio i'r posibilrwydd o brynu'r dafarn eu hunain. Yn gyntaf, cynhaliwyd arolwg i weld faint o arian y byddent yn gallu'i godi. Roedd y canlyniad yn galonogol ac aethpwyd ati i ymladd tair ymgyrch wahanol.

Yn gyntaf, daeth y pentrefwyr o hyd i gwpl addas (a oedd yn cynnwys cogydd) oedd â diddordeb mewn prynu'r dafarn a'i chadw. Lluniwyd cynllun lle byddai'r pentrefwyr yn gweithredu fel bancwyr a rhoi benthyg yr arian angenrheidiol i'r cwpl (roedd ganddynt ychydig o warant gyfochrog eu hunain) a chytunwyd y byddai'r arian yn cael ei dalu ymhen tair blynedd a hanner. Aeth pob dim yn iawn tan i berchennog y dafarn benderfynu tynnu'r eiddo oddi ar y farchnad.

Roedd y perchennog wedi cael cyngor i fynd ymlaen â'r cais i newid defnydd a dyna'r rheswm dros ei benderfyniad. Golygai hyn lawer o waith ychwanegol i'r pwyllgor llywio, yn ymchwilio i faterion cynllunio. Roedd yn hynod bwysig bod y cyngor lleol yn gefnogol iddynt. Darbwyllwyd Cyngor Dosbarth Dwyrain Swydd Caergrawnt i gefnogi'r gymuned leol ac roeddynt yn barod i dreulio amser yn ymchwilio'n fanwl i'r sefyllfa. Yn allweddol i'r gwrthwynebiad i'r cais cynllunio i newid defnydd oedd bod yn rhaid cyflwyno 'dewis arall rhesymol'. Nid oedd yn ddigonol dweud "Mae arnom eisiau rhedeg y dafarn ac rydym yn credu y byddem yn cael gwell hwyl arni." At y diben hwn, cyflwynwyd cynnig o £130 000 yn ffurfiol cyn i'r Pwyllgor Cynllunio gyfarfod i ystyried y cais i newid defnydd. Rhoddwyd gwerth o rhwng £115 000 a £125 000 ar y dafarn, ac felly, yn dyngedfennol, roedd y gymuned yn cynnig swm a oedd yn uwch na'r gwerth masnachol. Gan fod y dafarn erbyn hynny wedi bod ar gau am nifer o fisoedd, roedd ei gwerth, o ganlyniad, wedi gostwng ymhellach.

Gyda'r cwmnïau teledu a'r cyfryngau lleol yn bresennol, a thyrfu swnlyd yn chwifio placardiau ar risiau swyddfa'r Cyngor Dosbarth, gwrthodwyd y cais i newid defnydd. Roedd modd i'r perchennog apelio, ond byddai'r apêl wedi cymryd naw mis, gan gostio cannoedd o bunnoedd, ac yn ôl bob tebyg, byddai'n methu. Derbyniodd y perchennog gynnig y pentrefwyr o £130 000.

Ffurfiodd y gymuned gwmni newydd, Reach For A Pint Limited, cwmni a gyfyngwyd gan gyfranddaliadau. Pennwyd isafswm y gellid ei fuddsoddi, sef £250 a rhoddwyd un cyfranddaliad A i bob cyfranddaliwr, waeth faint a fuddsoddwyd, a rhoddwyd cyfranddaliadau B am y gweddill a fuddsoddwyd ganddynt. Dim ond cyfranddaliadau A oedd yn hawlio pleidlais. Y nod oedd codi £170k gan lai na 50 o gyfranddaliwr i dalu costau prynu'r dafarn a'i ailddodrefnu. Cyrhaeddwyd y targed gyda 49 o gyfranddaliwr.

Wrth gynnig cyfranddaliadau yn y cwmni i'r pentrefwyr lleol, roedd y pryniant yn dod o fewn darpariaethau Deddf Gwasanaethau Ariannol 1985 ac roedd angen llunio dogfen cynnig llawn.

Prynwyd y dafarn gan y pentref o'r diwedd ar 1 Gorffennaf 1999. Ar ôl i ddau grefftwr lleol a dwsinau o wirfoddolwyr eraill ei hadnewyddu, ailagorodd dan ei henw gwreiddiol, The Dyke's End, enw a darddai o leoliad y pentref ym mhen Devil's Dyke, gwrthglawdd Eingl-Sacsonaidd.

Roedd aelodau'r Pwyllgor Llywio wedi dod o hyd i landlord denant ardderchog (a oedd hefyd yn gogydd) i gadw'r dafarn. Agorwyd bwyty newydd i fyny'r grisiau er mwyn rhoi digon o le i'r agwedd honno heb amharu dim ar fusnes y dafarn. Rhoddwyd y denantiaeth pum mis a 28 diwrnod arferol i'r tenant ar y dechrau, ac yna rhoddwyd prydles tair blynedd iddo (oddi allan i'r ddeddf Landlordiaid a Thenantiaid) yn ogystal â chytundeb a roddai iddo'r dewis i brynu. Roedd hyn, i bob diben, yn rhoi'r dewis cyntaf i brynu'r lle iddo fo, unrhyw adeg yn ystod cyfnod ei denantiaeth. Cyfunwyd hyn gyda gostyngiad gwarantedig o 10% o leiaf oddi ar bris y farchnad pe bai'n dewis prynu. Os na fyddai'n dymuno prynu'r dafarn, roedd sicrwydd y byddai'n gadael y dafarn pe bai'r cwmni'n dymuno ei gwerthu, a byddai gwybodaeth ariannol llawn ar gael i'w galluogi i ddod o hyd i brynwr arall.

Penderfynodd Reach for a Pint Ltd y byddai'n gwerthu prydles estynedig ar yr eiddo, yn hytrach na'r rhydd-ddaliad. Byddai'r rhydd-ddaliad wedyn ym meddiant cymdeithas neu ymddiriedolaeth gymunedol a fyddai'n sicrhau na fyddai modd newid defnydd byth eto, oni bai ei bod yn gwbl amlwg nad oedd y busnes yn hyfyw.